

Rhaglen Cefnogi Pobl  
Bae'r Gorllewin

---

# Cynllun Strategol Rhanbarthol 2017-20

**Grant Rhaglen Cefnogi Pobl**

**Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol**

**Bae'r Gorllewin**

Ariennir y Rhaglen Cefnogi Pobl gan  
Lywodraeth Cymru ac mae'n darparu  
cefnogaeth sy'n ymwneud â thai i bobl  
ddiamddiffyn.

<b>Mynegai</b>	<b>Tudalen</b>
Rhagarweiniad	3
1.1 Bae'r Gorllewin	4
1.2 Llywodraethu ac atebolrwydd	4
Crynodeb Gweithredol	6
Blaenoriaethau Strategol	7
3.1 Cynllun Camddefnyddio Sylweddau LIC: Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed – Cynllun Cyflawni 2016 - 2018	7
3.2 Deddf Diwygio Lles 2012	8
3.3 Cyflwyniad i'r Strategaeth Tai: Deddf Tai (Cymru) 2014	8
3.4 Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016	10
3.5 Lwfans Tai Lleol (LTLI): goblygiadau i landlordiaid cymdeithasol	10
3.5.1 Landlordiaid Bae'r Gorllewin	11
3.5.2 Cartrefi â Chymorth	12
3.5.3 Dod o hyd i Denantiaid Cymdeithasol a'u Cadw	13
3.5.4 Darparwyr Cymorth Bae'r Gorllewin	14
3.5.5 Newidiadau Llywodraeth Cymru	15
3.6 Digartrefedd	17
3.6.1 Rhai sy'n Gadael y Carchar	19
3.6.2 Llwyddiant Gweithredu Cadarnhaol wrth Atal Digartrefedd ym Mae'r Gorllewin	20
3.6.3 Arian Pontio: Deddf Tai (Cymru) 2014	22
Cyflenwad, asesiad o anghenion, dadansoddiad o ganlyniadau, tystiolaeth o ymgynghoriadau a bylchau yn y gwasanaeth	24
4.1 Map Cyflenwad	24
4.1.1 Daliadaethau	24
4.1.2 Darparu Gwasanaethau a Ariennir gan y Rhaglen CP	24
4.1.3 Gwariant Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl fesul Grwpiau Cleientiaid	25
4.2 Asesiad o Anghenion	27
4.2.1 Poblogaeth Bae'r Gorllewin	27
4.2.2 Materion sy'n Ymwneud ag Iechyd	29
4.2.3 Ffigurau Cyflogaeth	30
4.2.4 Canlyniadau Chwarterol Digartrefedd	31
4.2.5 Llety Dros Dro	32
4.3 Dadansoddiad o Ganlyniadau	34
4.4 Ymgynghoriad	36
4.4.1 Darparwyr Cefnogaeth	36
4.4.2 Cydgynhyrchu a Chynnwys Defnyddwyr y Gwasanaeth	36
4.4.3 Grwpiau Cymunedol	37
4.4.4 Gwerthusiadau'r Gwasanaeth	38
4.5 Bylchau yn y Gwasanaeth	38
4.5.1 Contractio Rhanbarthol	38
4.5.2 Rhestrau Aros	39
4.5.3 Holiadur Monitro	40
Blaenoriaethau ar gyfer Datblygu, Datgomisiynu ac Ailfodelu'r Gwasanaeth	40
5.1 Blaenoriaethau Datblygol a Themâu Allweddol Bae'r Gorllewin	40
Atodiadau	47
1. Aelodaeth o'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol (PCRh)	48
2. Siart Rhaglen Iechyd a Gofal Cymdeithasol Bae'r Gorllewin	49

## 1. Cyflwyniad

Mae'r rhaglen Cefnogi Pobl yn darparu cefnogaeth sy'n ymwneud â thai i helpu pobl ddiamddiffyn i fyw mor annibynnol â phosib. Mae'n darparu cymorth hanfodol i bobl sydd mewn amgylchiadau personol anodd ac yn atal problemau drwy ddarparu cymorth mor gynnar â phosib. Yn 2015-16 buddsoddodd Llywodraeth Cymru (LIC) £124.49 miliwn yn y rhaglen sy'n cefnogi tua 60,000 o bobl bob blwyddyn.

Nod y rhaglen yw atal digartrefedd a chefnogi pobl ddiamddiffyn i gynyddu, cynnal a chadw eu hannibyniaeth drwy ddarparu amrywiaeth o wasanaethau cefnogi sy'n ymwneud â thai. Yn ddiweddar iawn, (ar ddechrau 2017), rhyddhaodd Llywodraeth Cymru'r newyddion bod setliad terfynol llywodraeth leol yn darparu £6 miliwn ychwanegol yn 2017-18 i fynd i'r afael â digartrefedd.

Yn nodweddiadol, mae gwasanaethau Cefnogi Pobl yn cynnwys cefnogaeth yn ôl y galw, llety dros dro (h.y. hostelau digartrefedd, llochesi cam-drin domestig), cynlluniau pobl hŷn a thai â chymorth.

Nodau'r Rhaglen Cefnogi Pobl yw:

- Atal digartrefedd
- Helpu pobl ddiamddiffyn i fyw mor annibynnol â phosib.
- Rhoi'r help angenrheidiol i bobl i fyw yn eu cartrefi eu hunain, mewn hostelau, tai lloches neu fath arall o dai arbenigol.
- Atal problemau neu ddarparu help mor gynnar â phosib er mwyn lleihau'r galw ar wasanaethau eraill megis iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol.
- Darparu cefnogaeth sy'n ymwneud â thai i ategu'r gofal personol a/neu feddygol y mae ei angen ar rai pobl.
- Rhoi pobl wrth wraidd y rhaglen.
- Sicrhau gwasanaethau o safon sy'n cael eu cyflwyno mor effeithlon ac effeithiol â phosib drwy weithio ar y cyd rhwng sefydliadau sy'n cynllunio ac yn ariannu gwasanaethau a'r rhai sy'n darparu gwasanaethau.
- Darparu cefnogaeth yn seiliedig ar angen.
- Hybu cydraddoldeb a lleihau anghydraddoldeb.

Cyfanswm Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl ar draws rhanbarth Bae'r Gorllewin ar gyfer 2016-17 yw ychydig o dan £24.5m, wedi'i rannu ym mhob awdurdod lleol fel a ganlyn:

<b>ALI</b>	<b>Dyraniad Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl 2016-17</b>
Abertawe	£13,817,121
CNPT	£4,795,331
Pen-y-bont ar Ogwr	£5,816,385

Ceir dadansoddiad manwl o sut gwariwyd Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl yn Adran 4.1.3.

Cyfarwyddeb LIC yw bod holl ranbarthau ALI, drwy'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol (PCRh) sy'n derbyn Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl, yn datblygu Cynllun Strategol Rhanbarthol tair blynedd, sy'n nodi'r blaenoriaethau strategol ar gyfer datblygu gwasanaethau yn y rhanbarth.

Mae nifer o ysgogiadau polisi neu ddeddfwriaethol cenedlaethol sy'n dylanwadu'n uniongyrchol ar sut cyflwynir y Rhaglen Cefnogi Pobl a'r effaith bosib ar ddarpariaeth gwasanaeth ar draws y rhanbarth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- ❖ Deddf Diwygio Lles 2012
- ❖ Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- ❖ Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- ❖ Deddf Tai (Cymru) 2014
- ❖ Cynllun Digartrefedd Deng Mlynedd i Gymru 2009-2019
- ❖ Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010
- ❖ Prisiau Rheoli'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn Narpariaeth y Gwasanaethau Cefnogi Pobl, rhif ymchwil gymdeithasol: 56/2015
- ❖ Safon ar gyfer Gwella Iechyd a Lles Pobl Ddigartref a Grwpiau Diamddiffyn Penodol
- ❖ Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016
- ❖ Deddf Cydraddoldeb 2010
- ❖ Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

Cyfeirir at y rhan fwyaf o'r rhain drwy'r ddogfen hon. Yn ogystal, ac yn dilyn cyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gwaith parhaus LIC ar sut gellir mesur cynnydd y genedl, a gyflwynwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mawrth 2016, Dangosyddion Cenedlaethol Cymru<sup>1</sup> fel sy'n ofynnol yn ôl o dan adran 10(1) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'n nodi bod yn *"rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") y mae'n rhaid eu cymhwyso er mwyn mesur cynnydd tuag at gyrraedd y Nodau Llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol."*

Mae'n diffinio dangosydd cenedlaethol fel rhywbeth y gellir ei "ddatgan ar ffurf gwerth y gellir ei fesur neu nodwedd y gellir ei mesur yn feintiol neu'n ansoddol yn erbyn canlyniad penodol. Caniateir ei fesur dros unrhyw gyfnod y mae Gweinidogion Cymru yn ei ystyried yn briodol a chaniateir ei fesur mewn perthynas â Chymru neu unrhyw ran o Gymru."

Mae'r ddogfen 'Sut mae mesur cynnydd cenedl? Dangosyddion Cenedlaethol ar gyfer Cymru', yn rhestru'r dangosyddion, y cyfeirir at sawl un ohonynt drwy'r ddogfen hon.

## 1.1 Bae'r Gorllewin

Cyflwynir y Rhaglen Cefnogi Pobl yng Nghymru ar draws chwe rhanbarth. Mae rhanbarth Bae'r Gorllewin yn cynnwys Dinas a Sir Abertawe, (CBS) Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ynghyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (PABM), Awdurdod Heddlu De Cymru a Gwasanaeth Prawf Cymru (Abertawe, CNPT a Phen-y-bont ar Ogwr).

## 1.2 Llywodraethu ac Atebolrwydd

Ail-lansiwyd y rhaglen Cefnogi Pobl yn dilyn adolygiad Aylward yn 2012, a chydabuwyd bod angen trefniadau llywodraethu priodol ar waith yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol. Roedd yn nodi bod y strwythur llywodraethu'n cael ei oruchwylio gan y Bwrdd Ymgynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl (BYCCP) ac y dylai pob rhanbarth yng Nghymru gael PCRh i gefnogi'r BYCCP.

<sup>1</sup> <http://llyw.cymru/docs/desh/publications/160316-national-indicators-to-be-laid-before-nafw-cy.pdf>

Mae'r BYCCP yn cefnogi gwaith y rhaglen Cefnogi Pobl drwy roi cyngor i Weinidogion Cymru a sicrhau bod yn rhaglen CP yn diwallu anghenion cefnogaeth sy'n ymwneud â thai pobl ddiamddiffyn.

Cadeirir y BYCCP gan Dr Kerry Bailey, ac mae ei aelodaeth yn cynnwys cynrychiolwyr enwebedig o:

- Lywodraeth Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Tai Cymunedol Cymru
- Cymorth Cymru
- Arweinyddiaeth Tai Cymru
- Ymddiriedolaeth Prawf Cymru.

Mae'r bwrdd hefyd yn cynnwys tri aelod annibynnol a benodwyd drwy'r broses penodiadau cyhoeddus.

Mae'r PCRh yn gyfrifol am Gynlluniau Strategol Rhanbarthol sy'n ystyried blaenoriaethau lleol ac yn gwneud argymhellion i awdurdodau lleol. Mae Canllawiau Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl - Cymru (Mehffin 2013) yn rhoi cyngor ac arweiniad ymarferol i ymarferwyr yn yr ardal hon<sup>2</sup>.

Mae gan bob rhanbarth yng Nghymru Awdurdod Cydlynus enwebedig. Ymgwymerodd Dinas a Sir Abertawe â'r rôl hon ar gyfer Bae'r Gorllewin ym mis Medi 2015. Cydnabyddir rôl timau Cefnogi Pobl (CP) yr awdurdod lleol wrth reoli cynllunio, comisiynu a chaffael gwasanaethau CP yn lleol fel allwedd i lwyddiant y rhaglen gyffredinol. Mae awdurdodau lleol yn atebol am sicrhau y bodlonir amodau Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl a'u bod yn cyflwyno'r gwasanaethau ar y cyd, yn unol â'r Cynllun Strategol Rhanbarthol.

Sefydlwyd PCRh Bae'r Gorllewin yn 2012 ac mae ei aelodaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o dri awdurdod lleol (gan gynnwys Aelodau Cabinet yr ALI), y Bwrdd Iechyd Lleol, Bwrdd Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau, y Gwasanaeth Prawf, darparwyr gwasanaethau Cefnogi Pobl a landlordiaid; y mae gan rai o'u haelodau hawliau pleidleisio, hawliau pleidleisio dirprwyedig, aelodau cyfetholedig ac aelodau ymgynghori'n unig. Dangosir rhestr lawn o aelodau yn Atodiad 1. Mae hyn yn sicrhau bod cynllunio, monitro a chomisiynu gwasanaethau Cefnogi Pobl yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl ac yn diwallu anghenion lleol a rhanbarthol.

Ers Cynllun Comisiynu Rhanbarthol diwethaf Bae'r Gorllewin, mae Strwythur Llywodraethu Rhaglen Iechyd a Gofal Cymdeithasol Bae'r Gorllewin wedi'i adolygu a'i ddiweddarau fel a ddangosir yn Atodiad 2.

---

<sup>2</sup> <http://llyw.cymru/docs/desh/publications/130607sppgrantguideen.pdf>

## 2. Crynodeb Gweithredol y Cynllun Strategol Rhanbarthol

---

Mae PCRh Bae'r Gorllewin wedi profi newidiadau sylweddol gyda phenodiad Cadeirydd a Chydlynnydd Datblygu Rhanbarthol PCRh newydd, ynghyd â newid i'r awdurdod cydlynu, o CNPT i Abertawe. Mae'r tri ohonynt bellach yn ail flwyddyn eu penodiad ac yn rhannu nod cyffredin i ddarparu help, mor gynnar â phosib, i bobl mewn angen i'w galluogi i fyw mewn llety priodol ac mor annibynnol â phosib.

Yn dilyn cyflwyno'r Adolygiad Blynyddol Rhanbarthol diwethaf yn 2015, mae'r PCRh wedi hwyluso mwy o ddatblygiad cydweithredol ar draws y rhanbarth. Mabwysiadodd Gylch Cynllunio Strategol Bae'r Gorllewin (tudalen 41), sydd wedi'i ddiweddarau a'i ddatblygu yn dilyn cyfeiriad strategol y PCRh a gwaith dilynol Diwrnodau Datblygu'r PCRh drwy gydol 2016.

Trefnwyd nifer o grwpiau i weithio ar reoli a chydlynu agweddau amrywiol ar gomisiynu a gweinyddu'r grant yn rhanbarthol. Sicrhawyd bod cynlluniau gwario'n cyd-fynd â'i gilydd ac felly mae ganddynt amserlenni gwerthuso contractau a rhennir gwybodaeth yn rhanbarthol i gyflwyno comisiynu ar sail tystiolaeth. Mae monitro contractau a rennir bellach ar waith lle y bo'n briodol. Mae aelodaeth gyfetholedig y PCRh wedi cynyddu i gynnwys meysydd arbenigedd fel camddefnyddio sylweddau ac rydym yn dechrau gweithio'n agosach â chydweithwyr o'r Adran Iechyd a'r Gwasanaeth Prawf i ystyried sut gellir cysylltu'r rhain ynghyd ar draws y rhanbarth.

Mae'r broses casglu data/canlyniadau rhanbarthol yn parhau i gael ei gwella a'i datblygu ac rydym wedi dechrau ei dadansoddi gyda'n gilydd fel PCRh. Roedd Diwrnod Datblygu'r PCRh ym mis Mai 2016 yn ymwneud yn benodol â dadansoddi'r data presennol sydd ar gael yn rhanbarthol. Mae Cylch Cynllunio Strategol Bae'r Gorllewin wedi golygu bod y Diwrnod Datblygu a gynlluniwyd ar gyfer mis Mai 2017 wedi'i gynllunio'n well er mwyn dadansoddi'n rhanbarthol fwy o ddata sydd ar gael.

Mae'r ymrwymiad i osod defnyddwyr gwasanaeth wrth wraidd ein gwaith yn gryf ac mae Ymuno yn cryfhau ar draws Bae'r Gorllewin. Caiff ei ddatblygu ymhellach i fynd i'r afael â disgwiliad y Ddeddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant ynghylch cyd-gynhyrchu, ac mae trafodaethau'n cael eu cynnal ar hyn o bryd ynghylch diweddarau'r Fframwaith Ymuno a dderbyniwyd yn rhanbarthol, a Chylch Gorchwyl y Grŵp Llywio Ymuno.

Fel rhan o'r ymgais i gyflawni'r nod sylfaenol h.y. cefnogi unigolion sydd yn yr angen mwyaf ac atal digartrefedd, mae'r PCRh yn parhau i ddatblygu o ran y canlynol:

1. Map o gysylltiadau llywodraethu rhwng sefydliadau sy'n aelodau o'r PCRh a sut maent yn cydgysylltu'n ymarferol.
2. Dealltwriaeth well o ehangder a phroffil sefydliadau darparu o fewn cwmpas y PCRh, sy'n sylfaen i'w rôl ac y mae ei benderfyniadau'n effeithio arnynt.
3. Cyflwyno dull i wneud gwybodaeth am fonitro ansawdd a thrafod cyllid yn weladwy heb gyfaddawdu ar gyfrinachedd rhwng ALI a'u darparwyr contract.
4. Cyfeiriad strategol clir ar gyfer gwaith cydweithredol y PCRh.

Mae tabl o flaenoriaethau rhanbarthol ar gyfer y tair blynedd nesaf, sy'n dangos y mater a nodwyd, y ddeddfwriaeth maent yn cyfeirio ati a'r camau gweithredu arfaethedig ar gyfer datblygiad rhanbarthol yn y dyfodol ar gael ar dudalen 42.

Cafodd y cyhoeddiad ym mis Hydref 2016 gan LIC fod cyllid Cefnogi Pobl wedi'i ddiogelu am flwyddyn arall (2017-18) ei groesawu gan PCRh Bae'r Gorllewin. Mae'n dal yn frwdfrydig dros

barhau i ddatblygu'r gwaith i atal digartrefedd a chefnogi pobl ddi-amddiffyn i gynyddu, cynnal a chadw eu hannibyniaeth drwy ddarparu amrywiaeth o wasanaethau cefnogi sy'n ymwneud â thai.

### **3. Blaenoriaethau Strategol**

---

Caiff yr ysgogiadau deddfwriaethol neu bolisi cenedlaethol a fydd yn dylanwadu'n uniongyrchol ar y ffordd y cyflwynir y Rhaglen Cefnogi Pobl eu rhestru ar dudalen 4. Ond Diwygio Budd-daliadau Lles Adran Gwaith a Phensiynau'r Llywodraeth Ganolog sydd wedi cael y dylanwad pennaf ar flaenoriaethau'r PCRh oherwydd bod y newidiadau mor sylweddol ac yn effeithio ar gynifer o feysydd datblygiad. Ceir esboniad o'r hyn sydd wedi newid mewn deddfwriaeth, a'i effaith yn y ddogfen hon.

#### **3.1 Cynllun Camddefnyddio Sylweddau LIC: Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed – Cynllun Cyflawni 2016 - 2018**

Mae'r cynllun cyflwyno'n disgrifio'r gwaith y mae LIC yn bwriadu ei wneud i leihau'r niwed a achosir gan gamddefnyddio sylweddau. Dechreuodd y broses ymgynghori ym mis Ionawr 2016 a daeth i ben ym mis Mawrth 2016. Mae'r cynllun cyflawni hwn yn esbonio'r hyn y bwriedir ei wneud dros y 3 blynedd nesaf i wella canlyniadau'r rhai y mae camddefnyddio sylweddau'n effeithio arnynt ac yn rhoi manylion y pwyntiau gweithredu ar gyfer pob un o brif nodau'r strategaeth.

Ceisiwyd barn amrywiaeth o randdeiliaid gan gynnwys y Bwrdd Cynllunio Ardal; partneriaethau diogelwch cymunedol; Awdurdodau Lleol; Byrddau Iechyd Lleol; yr Heddlu; Gwasanaethau Prawf a Charchar; defnyddwyr gwasanaeth a darparwyr gwasanaethau camddefnyddio sylweddau.

Mae'r cynllun camddefnyddio sylweddau'n cynnwys sawl cam gweithredu ar gyfer PCRh, gan gynnwys:

- a) adolygu'r ddarpariaeth hyfforddiant sydd ar gael i'r gweithlu tai a'r sgiliau, yr wybodaeth a'r galluoedd sy'n ofynnol i helpu pobl sy'n camddefnyddio sylweddau;
- b) sicrhau y gwneir atgyfeiriadau priodol i wasanaethau camddefnyddio sylweddau o wasanaethau gofal cychwynnol ac eilaidd a gweithwyr proffesiynol eraill.
- c) adolygu'r ddarpariaeth hyfforddiant sydd ar gael i'r gweithlu tai a'r sgiliau, yr wybodaeth a'r galluoedd sy'n ofynnol i helpu pobl sy'n camddefnyddio sylweddau.
- ch) mewn partneriaeth â'r heddlu a fferyllfeydd cymunedol, datblygu proses strwythuredig er mwyn monitro tueddiadau a rhannu gwybodaeth am gyfansoddiad sylweddau, y defnydd o gyffuriau (cyfreithiol ac anghyfreithlon), sypiau peryglus a grwpiau risg uchel yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.
- d) mewn partneriaeth â'r heddlu, sicrhau bod yr holl wasanaethau a gomisiynir (gan gynnwys gwasanaethau haen 4) ar gyfer defnyddwyr opiadau'n cynnwys darparu naloxone a hyfforddiant fel rhan orfodol o'u gweithdrefnau.
- dd) annog cynnwys defnyddwyr gwasanaeth (gan gynnwys plant a phobl ifanc) wrth gynllunio, cyflwyno a monitro gwasanaethau camddefnyddio sylweddau.
- e) mewn partneriaeth â'r heddlu, datblygu strategaeth cynnwys defnyddwyr gwasanaeth a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ddefnyddwyr gwasanaeth am y camau gweithredu a gymerwyd o ganlyniad i gyfranogaeth defnyddwyr gwasanaeth.
- f) atal digartrefedd drwy helpu pobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau i gynnal tenantiaethau.

ff) BCA a dulliau partneriaeth rhanbarthol eraill e.e. Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, PCRh i ddatblygu a chynnal cysylltiadau cryf i sicrhau gwasanaethau cydlynol a sicrhau bod strategaethau comisiynu a ffrydiau cyllido'n cyd-fynd â'i gilydd.

Bydd PCRh Bae'r Gorllewin, sy'n cynnwys aelodaeth o'r uned Strategaeth a Datblygu Camddefnyddio Sylweddau ym Mae'r Gorllewin, dros y tair blynedd nesaf, yn gweithio tuag at fynd i'r afael â'r camau gweithredu a restrwyd uchod, ac sydd felly wedi'u cynnwys yn Nhabl Blaenoriaethau Bae'r Gorllewin ar dudalen 42.

### 3.2 Deddf Diwygio Lles 2012

Yn 2012, cyflwynodd llywodraeth y DU Ddeddf Diwygio Lles 2012, a arweiniodd at newidiadau sylweddol i'r system nawdd cymdeithasol ac a newidiodd y ffordd y caiff budd-daliadau lles eu hawlio a'u talu. Dileodd Fudd-dal Treth y Cyngor, grantiau Gofal Cymunedol a Benthyciadau Argyfwng. Roedd y newidiadau'n cynnwys cyflwyno dau daliad budd-dal lles newydd, sef:

1. Credyd Cynhwysol sy'n disodli'r chwe budd-dal presennol canlynol:

- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm
- Cymhorthdal Incwm
- Credyd Treth Gwaith
- Credyd Treth Plant
- Budd-dâl Tai

2. Mae'r Taliad Annibyniaeth Bersonol (PIP) yn lle'r Lwfans Byw i'r Anabl (DLA).

Manylir ar sut mae hyn yn effeithio ar ddarpariaeth gwasanaeth yn rhanbarth Bae'r Gorllewin drwy'r holl ddogfen hon.

Yn 2016, cynhaliwyd dau Ddiwrnod Datblygu lle dadansoddwyd y data rhanbarthol a oedd ar gael i gadarnhau pa mor llwyddiannus rydym ym Mae'r Gorllewin wrth atal digartrefedd o fewn 56 diwrnod ac ystyried effaith newidiadau deddfwriaethol diweddar yn rhanbarthol. Nid oedd yr holl ddata ar gael i'w ddadansoddi'n rhanbarthol ar adeg y Diwrnod Datblygu cyntaf. Mae'r PCRh wedi gweithredu o ran hyn drwy ddiweddarau Cylch Cynllunio Strategol Bae'r Gorllewin (Tudalen 40) i gyd-fynd orau â'r wybodaeth sydd ar gael yn rhanbarthol, a phennwyd dyddiadau cyfarfodydd, gan gynnwys PCRh a Diwrnodau Datblygu, yn unol â'r cylch diwygiedig ar gyfer 2017. Manylir ar y dadansoddiad rhanbarthol o'r data dan y penawdau perthnasol sy'n dilyn.

Roedd Diwrnodau Datblygu 2016 yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- a) Trosolwg o ddata'r Strategaeth Tai
- b) Data ar ddigartrefedd rhanbarthol
- c) Holiadur Monitro Rhanbarthol (adran 4)
- ch) Data Canlyniadau Rhanbarthol (adran 4)

### 3.3 Cyflwyniad i'r Strategaeth Tai: Deddf Tai (Cymru) 2014<sup>3</sup>

<sup>3</sup> <http://llyw.cymru/topics/housing-and-regeneration/legislation/housing-act/?lang=cy>



Yn 2014, cyflwynodd LIC Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Ei diben yw ceisio gwella cyflenwad, ansawdd a safonau tai yng Nghymru, gan gynnwys gwella'r sector rhentu preifat, gwell safonau mewn tai cymdeithasol, helpu i ddiwallu anghenion tai pobl ac atal digartrefedd, gwella cymunedau a helpu i atal anawsterau a diffyg cyfleoedd y mae pobl ddiamddiffyn yn aml yn dod ar eu traws.

Prif elfennau Deddf Tai (Cymru) 2014 yw:

- cyflwyno cynllun cofrestru a thrwyddedu gorfodol i landlordiaid y sector rhentu preifat ac asiantiaid gosod a rheoli, a gyflwynir gan Rentu Doeth Cymru.
- diwygio'r ddeddf ddigartrefedd, gan gynnwys rhoi mwy o ddyletswydd ar awdurdodau lleol i atal digartrefedd a chaniatáu iddynt ddefnyddio llety addas yn y sector preifat.
- gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd ar gyfer sipsiwn a theithwyr lle nodwyd angen
- cyflwyno safonau ar gyfer awdurdodau lleol ar renti, taliadau gwasanaeth ac ansawdd llety.
- diwygio'r System Cymorthdaliadau Cyfrif Refeniw Tai
- rhoi'r grym i awdurdodau lleol godi mwy na'r gyfradd Treth y Cyngor safonol ar eiddo gwag tymor hir a rhai mathau o ail gartrefi.
- cynorthwyo Sefydliadau Tai Cydweithredol i ddarparu tai, a
- diwygio Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993.

Blaenoriaethau'r Ddeddf yw:

- mwy o gartrefi
- tai o safon well
- gwell gwasanaethau sy'n ymwneud â thai.

Nod y Ddeddf yw ategu amrywiaeth eang o ddatblygiadau ar draws y sector tai a nodau'r rhaglen, gan gynnwys:

- Grant Tai Cymdeithasol
- cyllid blaengar megis y Grant Cyllid Tai
- prosiectau adfywio megis Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid
- atebion ariannol i helpu prynwyr cartrefi
  - y cynllun Benthyciadau Troi Tai'n Gartrefi
  - Cymorth i Brynu Cymru
  - Homebuy a
  - Rent First
- Safon Ansawdd Tai Cymru
- gwasanaethau fel y Rhaglen Cefnogi Pobl
- digartrefedd.

O dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, dyma'r meini prawf penodol ar gyfer Adrannau 66, 73 a 75:

- Adran 66: Dyletswydd i atal digartrefedd (dyletswydd 'atal')
  - Pan fydd person yn gymwys ac yn cael ei fygwth gan ddigartrefedd o fewn 56 diwrnod
  - Cymryd yr holl gamau rhesymol i atal digartrefedd
  - Yn anymwybodol o angen blaenoriaethol, cysylltiad lleol a bwriadoldeb

- Adran 73: Dyletswydd i helpu i sicrhau llety (dyletswydd 'cymorth')
  - Pan fydd person yn gymwys ac yn ddigartref
  - Cymryd yr holl gamau rhesymol i liniaru digartrefedd
  - Yn anymwybodol o angen blaenoriaethol, cysylltiad lleol a bwriadoldeb
- Adran 75: Dyletswydd i sicrhau llety (dyletswydd 'derfynol')
  - Pan fydd yr holl ddyletswyddau uchod wedi bod yn aflwyddiannus
  - Sicrhau llety i geiswyr mewn angen blaenoriaethol ac sy'n ddigartref yn anfwriadol

Mae dadansoddiad rhanbarthol manwl o Adrannau 66, 73 a 75 ar gael ar dudalen 31 a manylir ar effaith y Ddeddf ar 'dai' ym Mae'r Gorllewin yn yr adrannau canlynol.

### 3.4 Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016<sup>4</sup>

Bwriad LIC wrth gyflwyno'r Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru), yw ei gwneud hi'n haws ac yn symlach i rentu cartref drwy roi un fframwaith cyfreithiol clir yn lle darnau amrywiol a chymhleth o ddeddfwriaeth gyfredol.

Dyma un o'r darnau deddfwriaeth mwyaf arwyddocaol i'w gymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a bydd yn effeithio'n uniongyrchol ar fywydau dros filiwn o bobl sy'n rhentu eu cartref yng Nghymru. Mae manylion y Ddeddf ar gael drwy ddilyn y ddolen ganlynol ar waelod y dudalen.

Fodd bynnag, mae prinder tai yn y DU gyfan. Ym mis Tachwedd 2016, nododd yr Ysgrifennydd Cymunedau a Phlant newydd ei benodi, Mr Carl Sargeant, sut mae LIC yn bwriadu cyflawni ei darged o 20,000 o dai fforddiadwy ychwanegol dros dymor y llywodraeth, a fyddai'n bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru.

Mae'r ffordd y byddant yn cyflawni hyn yn cynnwys:

- Parhau i gefnogi adeiladu tai cymdeithasol ar gyfer y bobl fwyaf diamddiffyn drwy gynlluniau profedig, gan gynnwys y Grant Tai Cymdeithasol (GTC).
- Cefnogi'r gwaith i adeiladu mwy na 6,000 o gartrefi drwy'r cynllun Cymorth i Brynu Cymru. Gyda cham 2 y cynllun, buddsoddir £290 miliwn nes 2021.
- Datblygu rhaglen adeiladu tai mwy uchelgeisiol, sy'n uchelgeisiol o ran dyluniad, ansawdd, lleoliad ac effeithlonrwydd ynni'r cartrefi rydym yn eu hadeiladu.
- Cefnogi amrywiaeth o ddaliadaethau tai er mwyn ymateb i amrywiaeth ehangach o anghenion tai.
- Datblygu cynllun Rhentu i Brynu a fydd yn cefnogi'r rhai hynny sy'n dyheu am brynu cartref eu hunain, ond sy'n ei chael hi'n anodd cynilo blaendal sylweddol.
- Hyrwyddo amrywiaeth o lwybrau i berchnogaeth tai am brisiau fforddiadwy, yn ein gwasanaethau'n enwedig i brynwyr am y tro cyntaf mewn ardaloedd lle nad ydynt yn aml yn gallu prynu cartref oherwydd bod eiddo lleol yn ddrud.

Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod yn bwysig cadw'r stoc tai cymdeithasol bresennol a bod deddfwriaeth i gael gwared ar yr Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael eisoes ar y gweill a fydd *"...yn ein galluogi i ddarparu tai cymdeithasol diogel a fforddiadwy ar draws Cymru gyfan a*

<sup>4</sup> <http://llyw.cymru/topics/housing-and-regeneration/legislation/rentingbill/?lang=cy>

*bydd yn galluogi cymdeithasau tai a chynghorau i fuddsoddi'n hyderus mewn cynlluniau i adeiladu tai newydd."*

### **3.5 Lwfans Tai Lleol (LTLI): Goblygiadau i Landlordiaid Cymdeithasol**

Roedd Adroddiad Caergrawnt a gyhoeddwyd ar ddechrau 2016 yn astudiaeth ddichonoldeb o'r disgwyliad i ddatblygu model tai dichonadwy i'r rhai a chanddynt hawl yn unig i gyfradd llety a rennir yr LTLI.

Ni fydd cymorth gyda chostau tai dan Gredyd Cynhwysol i'r rhai sy'n 18 i 21 oed ar gael yn awtomatig mwyach i'r holl bobl yn yr ystod oed hwn (nad yw'n berthnasol i Fudd-dal Tai), gan arwain at opsiynau tai cyfyngedig i bobl ifanc sengl dan 35 oed.

Oni bai fod landlordiaid cymdeithasol yn dechrau cynnig tai a rennir am renti o fewn y terfynau newydd, mae'n debygol mai'r prif opsiwn i bobl ifanc fydd y sector rhentu preifat. Fodd bynnag, mae'n fwy tebygol y bydd landlordiaid sy'n newydd i'r sector preifat yn chwilio am denantiaid sy'n hŷn, a chanddynt fwy o arian sy'n gallu rhentu eiddo cyfan.

Mae helpu pobl ifanc i gael gwaith neu waith â gwell tâl yn cynyddu'n sylweddol yr opsiynau tai y gallant eu fforddio, ac felly, mae'n cyflwyno ffordd i rai pobl ifanc fforddio tai hunangynhwysol. Serch hynny, mae llawer o'r gwaith hwn eisoes yn digwydd, ac yn ymarferol, mae'n annhebygol y gellid gwneud unrhyw beth i ddileu'r angen i bob person ifanc hawlio Budd-dal Tai.

Efallai bydd Taliadau Tai Dewisol yn helpu rhai, ond ni fydd yn ddigonol i dalu am ddiffygion rhent y mwyafrif helaeth o bobl ifanc y mae hyn yn debygol o effeithio arnynt, gan olygu mai'r unig ateb ar gyfer y grŵp hwn yw rhenti sydd o fewn terfynau'r LTLI. Mae gan dai a rennir y potensial i gynnig tai rhatach i bobl ifanc sengl gan fod mwy nag un person yn cyfrannu at gyfanswm y rhent ar yr eiddo. Gall tai a rennir hefyd olygu biliau cyfleustodau a Threth y Cyngor is i denantiaid, gan eu helpu i allu fforddio'u rhent, p'un a ydynt yn derbyn Budd-dal Tai a/neu'n gweithio. Gall gynnig un ateb posib i'r rhai dan 35 oed sy'n dibynnu ar Fudd-dal Tai, ond bydd y toriadau o fis Ebrill 2018 yn effeithio arno. Nid yw ychwaith yn ateb digonol i'r rhai sydd rhwng 18 a 21 oed na fyddant yn gymwys am unrhyw Fudd-dal Tai, oni bai y gallant ennill digon o arian i dalu eu rhent.

#### **3.5.1 Landlordiaid Bae'r Gorllewin**

Ar gyfer PCRh Bae'r Gorllewin ym mis Tachwedd 2016, cyflwynodd cynrychiolwyr y darparwyr a'r landlordiaid bapur a oedd yn cynnwys ystyriaethau rhanbarthol ar gyfer y dyfodol a hysbyswyd y PCRh fel a ganlyn:

Gofynnwyd i'r holl landlordiaid tai cymdeithasol ym Mae'r Gorllewin am y diweddaraf am unrhyw waith maent wedi'i wneud hyd yn hyn i gyfrifo pa effaith y byddai'r LTLI yn ei chael ar eu llifoedd incwm a pha opsiynau maent yn eu hystyried ar gyfer y dyfodol. Derbyniom adborth gan Linc, Family, Cartrefi CNPT, Cyngor Abertawe a Thai Coastal a nodir isod, ynghyd â gwybodaeth gan Dai Cymunedol Cymru sef y corff ymbarél ar gyfer cymdeithasau tai yng Nghymru.

Awdurdod Lleol	Llety 1 ystafell wely rhent cymdeithasol cyffredin	Cyfradd Llety a Rennir LTLI	Diffyg wythnosol	Rhent gyda thâl gwasanaeth	Diffyg wythnosol
Abertawe	£73.19	£57.34	£15.85	£80.19	£22.85
Castell-nedd Port Talbot	£70.09	£51.02	£19.07	£77.09	£26.07
Pen-y-bont ar Ogwr	£69.88	£57.50	£12.38	£76.88	£19.38

*Ffynhonnell - Asiantaeth y Swyddfa Brisió drwy DirectGov a Stats Cymru 2015-16*

Nid oes data ar gyfer taliadau gwasanaeth landlordiaid cymdeithasol ond y tâl gwasanaeth cyfartalog wythnosol am Fudd-dal Tai yn Lloegr yw £6 i £7 felly rydym wedi cymryd y terfyn uchaf o £7 ar gyfer y tabl uchod. Byddai hyd yn oed y diffyg isaf o £12.38 ym Mhen-y-bont ar Ogwr sy'n seiliedig ar rent yn unig yn rhoi pwysau ariannol sylweddol ar y rhai dan 35 oed sy'n derbyn budd-dal y mae'n annhebygol y byddent yn gallu ei fforddio.

Mae landlordiaid yn hysbysu'r holl bobl sy'n ymgymryd â thenantiaeth newydd o oblygiadau'r LTLI sydd ar ddod pan fyddant yn arwyddo'u tenantiaeth newydd. Serch hynny, mae'n anodd rhagfynegi'n union pa oblygiad ariannol y bydd yn ei gael oherwydd bydd amgylchiadau unigol yn amrywio rhwng nawr a mis Ebrill 2018. Yn y DU, amcangyfrifir y bydd 15% o'r holl rai rhwng 16 a 35 oed yn byw mewn tai cymdeithasol, gyda 39% yn byw yn y sector rhentu preifat a byddai 13% yn rhannu. Yng Nghymru, byddai 39% o bobl 24 oed ac iau yn rhannu, ac 14% yn unig o'r rhai rhwng 25 a 35 oed, sy'n dangos y byddai 1 o bob 2 berson 35 oed ac iau yn rhannu llety.

O'r rhai rhwng 18 a 21 oed na fydd yn gymwys am unrhyw Fudd-dal Tai oni bai eu bod yn y categorïau eithrio, mae 61% o'r grŵp oed hwn sy'n byw mewn tai cymdeithasol yn hawlio Budd-dal Tai ar hyn o bryd yn y DU. Ers mis Ebrill eleni, mae Cartrefi CNPT wedi dyrannu tenantiaethau i 12 o bobl rhwng 18 a 21 oed.

Mae gan nifer o landlordiaid sawl eiddo mewn canol trefi a dinasoedd a chanddynt daliadau gwasanaeth uwch na'r cyffredin oherwydd eu cyfleusterau cymunedol, a'r rhain yw'r eiddo sydd fel arfer yn cael eu dyrannu i bobl senl. Mae gan Gartrefi CNPT a Thai Coastal oddeutu 900 eiddo un ystafell wely yng Nghastell-nedd Port Talbot. Pe baent yn cael eu gosod ar y rhent a'r tâl gwasanaeth cyffredin sef £77.09, a'u rhentu gan rywun 35 oed neu'n iau sy'n derbyn budd-daliadau yna byddai diffyg blynyddol o £1.22m. Ar hyn o bryd, amcangyfrifir gan landlordiaid yr effeithir ar oddeutu 25% o denantiaethau, gan arwain at ddiffyg o oddeutu £300k y flwyddyn.

Nododd landlordiaid y gallai'r effaith bosib ar y sector gynnwys unrhyw neu bob un o'r canlynol:

- Diffyg llety addas i'r rhai dan 35 oed, yn enwedig i'r rhai rhwng 18 a 21 oed.
- Mae fforddadwyedd tai cymdeithasol y tu hwnt i'r rhai sy'n derbyn budd-daliadau.
- Gallai gwaith atal digartrefedd gynyddu'n sylweddol.
- Ei gwneud hi'n anodd i berson lwyddo drwy greu tenantiaethau nad oes modd eu cynnal.
- Cael gwared ar y cymhorthdal llety dros dro.
- Cost ychwanegol taliadau gwasanaeth uwchben y rhent craidd yn achosi pwysau ariannol cynyddol.
- Dim hyblygrwydd gan bolisiau dyrannu i ddarparu ar gyfer datblygiadau tai a rennir posib.
- Cosbau llymach i'r rhai sydd wedi sicrhau cyflogaeth ond y mae gofyn iddynt weithio mwy o oriau.

Mae llawer o waith yn mynd rhagddo'n gyffredinol i geisio dileu'r effeithiau uchod, ac mae rhai o'r opsiynau ar gyfer y dyfodol sy'n cael eu hystyried yn cynnwys y canlynol: -

- Treialu Tai a Rennir
- Gall rhenti gael eu rhewi, a'u lleihau o bosib.
- Adolygu gwasanaethau a mwy o gyfrifoldeb i denantiaid
- Gwaith cyflogadwyedd i helpu pobl i ddychwelyd i waith
- Gwaith ariannol o ran mwyafu manteision
- Cyd-gynhyrchu gwasanaethau gyda dinasyddion a gweithio ar y cyd ymhlith landlordiaid
- Swyddog arbenigol i fentora pobl ifanc dan 35 oed
- Hyfforddiant cynnal tenantiaeth
- Partneriaeth Rooms 4 U rhwng landlordiaid cymdeithasol a phreifat
- Datblygiadau tai cymdeithasol newydd i gynnwys eiddo llai i'w gwneud yn fwy fforddiadwy
- Newid mewn deddfwriaeth HMO i'w ystyried gan Lywodraeth Cymru

### 3.5.2 Cartrefi â Chymorth

Ar hyn o bryd, diffinnir bod Cartrefi â Chymorth wedi'u heithrio o gyfradd a rennir y LTLI er nad yw Llywodraeth Cymru wedi cytuno eto ar y diffiniad o'r math hwn o dŷ. Byddai'r diffiniad sy'n cael ei ddefnyddio yn Lloegr ar hyn o bryd yn cynnwys, er na fyddai o reidrwydd wedi'i gyfyngu i:

- Lochesi trais domestig a chefnogaeth arbenigol arall sy'n ymwneud â llety i ddiodefwyr trais domestig
- Hostelau a llety arall i'r digartref
- Llety lloches i bobl hŷn
- Llety â chymorth i bobl ifanc
- Tai gofal ychwanegol
- Llety i bobl â phroblemau iechyd meddwl neu gyffuriau/alcohol
- Llety i bobl ag anableddau
- Llety i gyn-droseddwy a phobl sydd mewn perygl o droseddu

Mae'n hanfodol bod y ddarpariaeth tai â chymorth bresennol yn cael ei diffinio mewn unrhyw ddeddfwriaeth newydd, yn enwedig fformatau cefnogaeth yn ôl y galw, er enghraifft, mae llawer o sefydliadau'n ystyried ailstrwythuro gwasanaethau a allai effeithio ar gyllid yn y dyfodol.

### 3.5.3 Cael Mynediad i Denantiaethau a'u Cynnal

Yn dilyn argymhellion Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol, archwiliwyd hygyrchedd a chynladwyedd tai cymdeithasol ynghyd ag effaith troi pobl allan o dai cyngor a LCC. Canfuwyd tystiolaeth ymhlith rhai LCC ac un landlord awdurdod lleol y gwrthodwyd tenantiaethau i rai aelwydydd am resymau fforddadwyedd, hyd yn oed lle byddai'r rhent yn cael ei dalu'n llawn gan Fudd-dal Tai.

Y ddau reswm mwyaf cyffredin am droi allan o dai cymdeithasol yw ôl-ddyledion rhent ac YGG (ymddygiad gwrthgymdeithasol) a dywedodd y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg sut byddai ymyrryd yn gynnar a chefnogaeth wedi bod o gymorth mewn achosion o'r fath, a'r angen am gydweithio effeithiol ar draws sefydliadau a sectorau.

#### **Effaith**

Gall costau troi allan, uniongyrchol ac anuniongyrchol, fod yn sylweddol, gan gynnwys iechyd plant sy'n cael eu troi allan o dai cymdeithasol yn dirywio. Canfuwyd bod rhaglenni atal troi allan yn gost-effeithiol ar lefel partneriaeth, lle mae gofyn i sefydliadau weithio er lles pawb yn rhanbarthol a/neu'n genedlaethol. Canfuwyd sawl enghraifft o arfer da, ond hefyd enghreifftiau niferus o ddiffyg cyfathrebu, ac roedd atgyfeiriadau i wasanaethau digartrefedd yn anghyson.

Gall gwersi ar gyfer y dyfodol gynnwys:

- Hyfforddiant i staff rheng flaen ar ôl-ddyledion rhent
- Gweithdrefnau cyson
- Cynlluniau ad-dalu realistig
- Heriau Budd-dal Tai
- Goblygiadau Diwygio Lles, yn enwedig i bobl dan 35 oed
- Defnydd priodol o Rybuddion o Geisio Meddiant
- Ymagweddau sy'n seiliedig ar dystiolaeth at gynnwys tenantiaid.

Gall rhwystrau strwythurol megis newidiadau i ddiwygio lles, diffyg cyflogaeth neu gyflogaeth ansefydlog ynghyd â methiant i fynd i'r afael â chefnogaeth neu anghenion cymhleth heb eu diwallu oll gyfrannu at ôl-ddyledion rhent ac YGG. Mae angen i landlordiaid ystyried yr holl bwyntiau sbardun hyn wrth asesu amgylchiadau tenant.

Yn yr hinsawdd ariannol heriol bresennol o ddiwygio lles a chyni, mae landlordiaid cymdeithasol dan bwysau i gydbwyso eu rhwymedigaethau cymdeithasol â'u dichonoldeb ariannol, ond mae mentrau megis hyfforddiant i gynnal tenantiaethau, a hyfforddiant cyflogadwyedd ac addysg yn cael eu defnyddio i gynnal tenantiaethau.

### ***Y Ffordd Ymlaen***

Mewn partneriaeth, ddatblygu ymagwedd Cymru gyfan at osodiadau sy'n ariannol gynhwysol, safoni ymagwedd at asesu fforddadwyedd, ffiniau derbyniol ar gyfer defnyddio polisïau rhenti ymlaen llaw a gwahardd o restrau aros, ynghyd â llwybr cytunedig i'r rhai y gwrthodwyd tenantiaeth iddynt ar sail fforddadwyedd.

Gallai goblygiadau'r gyfradd LTLI ar gyfer tai cymdeithasol achosi hyd yn oed mwy o broblemau yn y dyfodol, felly mae datblygu opsiynau tai a rennir i bobl dan 35 oed yn ddechreuad i ddatblygu tai fforddadwy i bobl ifanc, ynghyd ag unedau sengl rhad.

Cyn ymgymryd ag unrhyw achos llys posib, dylai'r holl landlordiaid cymdeithasol sicrhau eu bod yn ystyried y canlynol

- Cyfeirio ar gyfer cyngor ar dai ac arian
- Asesiad o anghenion cefnogaeth
- Cynllun ad-dalu realistig
- Cynorthwyo tenantiaid i fynd i'r afael â materion Budd-dal Tai gan gynnwys Taliadau Dewisol
- Cynorthwyo i sefydlu cyfrifon jariau jam Undeb Credyd neu Daliad Amgen

### ***Trefniadau dan Gredyd Cynhwysol***

- Cyfeirio'n gynnar at Opsiynau Tai
- Cyfeirio at brosiect cefnogaeth ataliol ar gyfer YGG honedig

Daeth iechyd meddwl i'r amlwg fel thema ganolog felly gwelwyd bod darparu hyfforddiant i'r holl weithwyr proffesiynol rheng flaen ar sut i nodi problemau posib yn hanfodol yn y dyfodol, ynghyd â chael cyswllt gweithiwr proffesiynol iechyd meddwl a enwir.

Gellid datblygu hwb arfer da canolog ar-lein i landlordiaid rannu eu hymagweddau at atal troi allan. Gallai hwn gael ei ddefnyddio i ail-gydbwyso'r hyn sy'n cael ei wario ar hyn o bryd ar droi allan er mwyn gwella argaeledd gwasanaethau ataliol sy'n seiliedig ar gefnogaeth.

Er mwyn bwrw ymlaen â rhai o'r argymhellion hyn, cytunwyd y byddai landlordiaid yn ardal Bae'r Gorllewin yn sefydlu gweithgor yn 2017 i drafod rhoi camau gweithredu ar waith yn gyson i fynd i'r afael â'r materion a amlygwyd yn yr adroddiad.

Cydweithio gwell rhwng Opsiynau Tai a thimau Budd-dal Tai, gan gynnwys ymyriad Llywodraeth Cymru os oes angen. Mae'r PCRh wedi nodi'r canfyddiadau hyn wrth wneud argymhellion ar gyfer y dyfodol am flaenoriaethau gwario lleol, yn enwedig gan fod cyllid digartrefedd trawsnewidiol yn cael ei dorri, er y dylai Llywodraeth Cymru geisio cadw'r cyllid hwn.

#### **3.5.4 Darparwyr Cymorth Bae'r Gorllewin**

Gofynnwyd i ddarparwyr cefnogaeth yn fforwm Darparwyr Rhanbarthol Bae'r Gorllewin am eu hadborth ar yr effaith y gallai'r LTLI ei chael ar Gartrefi â Chymorth a rhestrir eu sylwadau isod:

- Mae darpariaeth i ffoaduriaid yn ddrud am fod angen adeiladau diogel arnynt, sy'n cynnwys CCTV, cyfleusterau i blant etc. ac mae'r costau hyn yn cynyddu lefelau'r rhenti'n sylweddol, fel eu bod yn uwch nag unrhyw lefel LTLI.
- Byddai'r LTLI yn gwneud darpariaeth Cartrefi â Chymorth yn gwbl anghynladwy. Mae darparwyr wedi ystyried ystafelloedd a rennir (o fewn tŷ a rennir) ond byddai hyn dim ond yn addas i denantiaid unigol. Yn ymarferol, mae sawl goblygiad i hyn; yn gyntaf oll, mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr llochesi'n deuluoedd, â phlant ifanc iawn. Byddai hyn felly'n cyfyngu nifer y teuluoedd y gellid eu derbyn mewn lloches, gan roi menywod a phlant mewn perygl. Yr ail oblygiad yw'r cynnydd yn nifer y defnyddwyr gwasanaeth fesul aelod o staff. Byddai'n rhaid cael terfyn i'r rhai sy'n cael eu derbyn i loches sydd ag anghenion cymhleth neu broblemau iechyd meddwl neu gamddefnyddio sylweddau. Mae hyn yn rhoi'r bobl fwyaf diamddiffyn mewn perygl, gan fod darpariaeth loches yn canolbwyntio ar ddioddefwyr sydd yn y perygl mwyaf, ar bwynt argyfwng ac yn aml y rhai a chanddynt anghenion cymhleth iawn ac sy'n agored iawn i niwed.
- Rhaid i ddarpariaeth loches gael ei heithrio o unrhyw LTLI yn y dyfodol er mwyn cynnal ei chynladwyedd.
- Mae gan hwn y potensial i wneud ffoaduriaid yn annichonadwy. Mae'r ffigur a godir gan y Sefydliad Tai yn debyg i LTLI nad yw'n ystyried taliadau cymwys a chostau rheoli tai.

#### **3.5.5 Newidiadau Llywodraeth Cymru**

Mae cyflwyno Deddf Diwygio Lles 2012 a Deddf Tai (Cymru) 2014 wedi cael effaith sylweddol ar dai, cefnogaeth sy'n ymwneud â thai a goblygiadau ariannol ar gyfer cyflwyno gwasanaethau yng Nghymru, nid lleiaf felly am fod Cymru'n dibynnu'n fwy ar fudd-daliadau lles na'r DU yn ei chyfanrwydd.

- Mae gan Gymru'r gyfran uchaf o bobl sy'n derbyn Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (LCCh) neu Fudd-dal Analluogrwydd (BA) yn y DU, gyda 10% o'r boblogaeth oed gweithio'n derbyn rhyw ffurf ar un o'r budd-daliadau hyn.

- Mae gan Gymru gyfran sylweddol uwch o bobl sy'n hawlio budd-daliadau am bum mlynedd neu fwy, sef 8.5%. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd Prydain sef 5.9%;
- Mae gan Gymru'r lefel uchaf o hawlwr budd-dal i'r anabl sef 1.3% o'r boblogaeth waith.

Mae diwygiadau Llywodraeth y DU i'r system les yn canolbwyntio ar gael hawlwr budd-dal tymor hir, yn enwedig y rhai sy'n derbyn budd-daliadau salwch tymor hir fel LCG a BA, i ddychwelyd i'r gwaith. Mae'r toriadau lles yr amcangyfrifir y byddant yn arwain at y colledion incwm blynyddol mwyaf yng Nghymru, yn cynnwys cap o 1% ar y rhan fwyaf o fudd-daliadau oed gweithio, rhai elfennau o gredydau treth, budd-dal plant a cholli hawl i Lwfans Byw i'r Anabl, a fydd yn effeithio ar nifer mawr o bobl yng Nghymru.

Mae mynegai rhentu HomeLet yn cynnwys methodoleg sydd wedi'i hail-lunio ar y cyd ag athro yn Ysgol Economeg Llundain sy'n darparu dadansoddiad o dueddiadau yn y sector rhentu preifat (SRhP) ar draws y wlad gyfan. Mae'n adrodd bod y cwtogiad i gyflymdra chwyddiant prisiau rhentu yn fwyaf amlwg mewn ardaloedd o'r wlad lle'r oedd rhentu'n codi gyflymaf yn flaenorol, fel y mae'r diagram isod yn ei ddangos:

Mae'r tabl isod yn dangos yr amrywiad mewn gwerthoedd rhentu cyfartalog yng Nghymru.

Rhanbarth	Rhent cyfartalog ym mis Hydref 2016	Rhent cyfartalog ym mis Medi 2016	Rhent cyfartalog ym mis Hydref 2015	Amrywiad Misol	Amrywiad Blynyddol
<b>Cymru</b>	£609	£609	£586	0.1%	3.9%

Gwelwyd cynnydd o 3.9% yn y gwerthoedd rhentu cyfartalog yng Nghymru ym mis Hydref 2016 o'u cymharu â'r un cyfnod yn 2015 (£609 y mis) fel y mae'r siart isod yn ei ddangos.

Yn ôl Mynegai Rhenti HomeLet, mae'r gwerthoedd rhentu cyfartalog ar gyfer tenantiaethau newydd yng Nghymru yn llawer is na'r DU gyfan ac, yn ystod 2015-16, mae'r gwerthoedd rhentu cyfartalog wedi cynyddu bob yn dipyn yng Nghymru o £581 ym mis Ionawr 2015 i £609 ym mis Hydref 2016.



Mae'r data diweddaraf o Fynegai Rhenti HomeLet yn dangos bod landlordiaid fel pe baent yn gwneud y cyfan y gallant i gydbwysu'r incwm mae ei angen arnynt i dalu am gostau morgais, ac maent yn awyddus i sicrhau tenantiaid rheolaidd, dibynadwy mewn eiddo fforddadwy. Mae tenant cyffredin yn aros mewn eiddo am ychydig dros 28 mis, y cyfnod hwyaf ers peth amser.

### 3.6 Digartrefedd

Caiff digartrefedd ei ddiffinio fel a ganlyn:

*"lle nad oes gan berson lety yn y DU neu rywle arall sydd ar gael iddo fyw ynddo ac y mae gan y person hwnnw hawl gyfreithiol i fyw ynddo. Mae person hefyd yn ddigartref os nad oes ganddo lety ond ni all gael mynediad iddo, neu fod y llety'n adeiladwaith, yn gerbyd neu'n llong symudol neu'n un sydd wedi'i addasu er mwyn i berson fyw ynddo (megis carafán neu gwch preswyl) ac nid oes lle y gellir ei roi er mwyn darparu llety. Caiff person digartref ei drin fel person digartref lle na fyddai'n rhesymol iddo barhau i fyw yn y llety hwnnw".<sup>5</sup>*

Mae'r tabl isod yn dangos nifer yr aelwydydd yng Nghymru a rhanbarth Bae'r Gorllewin y canfuwyd eu bod yn gymwys a dan fygythiad digartrefedd o fewn 56 diwrnod yn 2015-16;

---

<sup>5</sup> Code of Guidance for Local Authorities on the Allocation of Accommodation and Homelessness 2015 (Saesneg yn unig)

	Households with dependent children		Households with dependent children	Single person household		Single person household	All other household groups	Total
	Couple with dependent children	Single parent household with dependent children		Single person household, Male applicant	Single person household, Female applicant		All other household groups	
Wales	843	1,977	2,820	1,902	1,227	3,129	1,179	7,128
Swansea	63	240	303	315	162	480	54	834
NPT	60	108	168	87	78	165	54	384
Bridgend	36	99	138	87	57	144	30	309
Western Bay	159	447	609	489	297	789	138	1,527
	18.9%	22.6%	21.6%	25.7%	24.2%	25.2%	11.7%	21.4%

Stats Cymru (2016)

Fel mae'r tabl uchod yn dangos, aseswyd bod 1,527 o aelwydydd dan fygythiad o ddigartrefedd o fewn 56 diwrnod y llynedd ym Mae'r Gorllewin yn 2015-16, yr oedd y rhan fwyaf ohonynt o aelwydydd un person.

Yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014,

*"Mae'n rhaid i'r unigolyn gael llais cryf a gwir reolaeth dros benderfyniadau sy'n effeithio arno. Mae hyn yn ganolog i gefnogi pobl i gyflawni lles a'r canlyniadau sydd o bwys iddynt."*<sup>6</sup>

I'r perwyl hwn, mae llawer yn mynd i'r afael â'u digartrefedd eu hunain ac yn cael eu hannog i wneud hynny, heb droi at y cyngor am gefnogaeth. Er enghraifft, mae pobl hŷn yn symud i gartrefi llai ac yn symud yn agosach i wasanaethau, mae pobl ifanc yn aros gartref i arbed arian i gael blaendal ar gyfer rhentu fflat ac mae rhai yn ceisio help i ddod o hyd i eiddo arall gan asiantiaid gosod os yw eu landlord yn ceisio ailfeddiannu'r eiddo.

Mae help a chefnogaeth ar gael i'r rhai na allant helpu eu hunain, oherwydd gall digartrefedd gael effaith fawr ar ansawdd bywyd person, yn ogystal â'i deulu, ac yn enwedig ar ei iechyd. Gall rwystro gallu person i gael neu gynnal cyflogaeth, neu gael mynediad i gyfleoedd addysg a hyfforddiant. Gall y ffactorau hyn gael effaith andwyol hefyd ar yr economi a chynyddu pwysau ar wasanaethau'r awdurdod lleol.

Mae'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn comisiynu ac yn darparu cefnogaeth sy'n ymwneud â thai:

*"i helpu pobl ddiamddiffyn i ddatblygu neu gynnal y sgiliau a'r hyder sy'n angenrheidiol i fyw mor annibynnol â phosib. Mae tai ac atal digartrefedd neu bobl sy'n byw mewn lleoliadau sefydliadol anaddas, wrth wraidd y rhaglen hon. Gellir cynnig cefnogaeth i unrhyw un cymwys, ni waeth beth yw ei ddaliadaeth"*<sup>7</sup>.

Rhodddwyd Deddf Tai (Cymru) 2014 ar waith ar 27 Ebrill 2015 ac mae wedi cael goblygiadau sylweddol o ran sut mae awdurdodau lleol yn mynd i'r afael â digartrefedd. Mae'r pwyslais ar atal, ac mae awdurdodau lleol wedi gorfod sicrhau bod eu gwasanaethau wedi'u strwythuro i geisio atal digartrefedd.

Mae awdurdodau lleol wedi nodi 3 newid allweddol yn y Ddeddf y bydd ganddynt y goblygiadau pennaf:

<sup>6</sup> Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

<sup>7</sup> Supporting People Programme Grant Guidance Wales June 2013 (Saesneg yn unig)

- i. Yn ôl y dyletswyddau newydd, mae'n ofynnol cymryd camau rhesymol i atal/liniaru digartrefedd
- ii. Y newid i ganiatáu i'r sector rhentu preifat gyflawni'r ddyletswydd tai
- iii Y newid yn 'statws angen blaenoriaeth' y rhai sy'n ddigartref pan fyddant yn gadael carchar.

Y prif resymau am ddigartrefedd ar gyfer 2015-16 (gwelir yr un patrwm ar draws yr holl awdurdodau ac sydd wedi aros yr un peth dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf) yw:

- Colli llety rhentu preifat
- Perthynas rhieni'n chwalu
- Trais domestig
- Perthnasoedd yn chwalu
- Gadael carchar

Mae sawl ffactor a allai o bosib gynyddu'r ffigurau hyn fel a fanylir uchod. Mae'n ofynnol yn ôl y rhaglen CP i awdurdodau lleol sicrhau, lle y bo'n briodol, fod atal digartrefedd yn nod gwasanaeth amlwg. Yn wir, mae lliniaru digartrefedd yn nod amlwg gyda'r 3 ALI ym Mae'r Gorllewin, ac mor ddiweddar â mis Rhagfyr 2016, rhyddhaodd Shelter Cymru bapur o'r enw 'Camau rhesymol: profiadau o wasanaethau digartrefedd o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014' lle'r oedd un o'i argymhellion yn tynnu sylw at y gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud ym Mae'r Gorllewin, fel a ganlyn:

*Dylai comisiynwyr Cefnogi Pobl yr awdurdodau lleol flaenoriaethu comisiynu gwasanaethau sy'n cydweithio i atal a dileu digartrefedd. Dylai hyn gynnwys ehangu argaeledd cefnogaeth tenantiaeth fyrdymor a hyblyg. Dylai'r gwasanaethau cefnogi hyn gael eu cynllunio mewn partneriaeth lawn â Datrysiadau Tai lleol, a'u darparu i bobl sydd mewn perygl o ddigartrefedd yn ogystal â phobl sydd eisoes yn ddigartref.*

Bydd atal digartrefedd yn aros ar frig rhestr o flaenoriaethau rhanbarthol Bae'r Gorllewin dros y tair blynedd nesaf.

### 3.6.1 Rhai sy'n Gadael y Carchar

Ym mis Rhagfyr 2015, cyhoeddodd y Gweinidog Cymunedau Lwybr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd i Blant, Pobl Ifanc ac Oedolion mewn Sefydliadau Diogel<sup>8</sup> i'r rhai sy'n gadael carchar. Yn hwn y gobaith yw y bydd pobl sy'n wynebu digartrefedd wrth adael y carchar yn derbyn gwell cefnogaeth i helpu i sicrhau y gallant gael cartref diogel, yn hytrach nag aros mewn llety gwely a brecwast a gwella'r ffordd y mae sefydliadau'n gweithio gyda'r rhai sy'n gadael carchar. Mae'r llwybr yn mynd i'r afael â gofynion Deddf Tai (Cymru) 2015 Llywodraeth Cymru<sup>9</sup> ac mae'n gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i weithio gyda phobl sy'n wynebu digartrefedd ar gam llawer cynharach i'w helpu i ddod o hyd i ateb i'w hanghenion tai.

Roedd Shelter Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) yn rhan o broses ymgynghori LIC a oedd yn rhoi sylw arbennig i anghenion pobl sy'n gadael y ddalfa i'w hatal rhag dod yn ddigartref, gan wella trwy hynny eu gallu i ailsefydlu yn y gymdeithas a lleihau'r risg o ailddosoddu.

<sup>8</sup> <http://llyw.cymru/docs/desh/publications/151215-national-pathway-for-homelessness-services-cy.pdf>

<sup>9</sup> <http://llyw.cymru/topics/housing-and-regeneration/legislation/housing-act/?lang=cy>

Wrth siarad yng Ngwasanaeth Troseddu Ieuencid Cwm Taf, dywedodd y Gweinidog Cymunedau, Lesley Griffiths

*"Mae Cymru yn cael ei chydhabod am ei blaengaredd o ran atal digartrefedd. Mae'r Llwybr Cenedlaethol yn ein rhoi ar y blaen i weddill y DU o ran ein hymdrechion i gadw'r rheini sy'n gadael y carchar rhag bod yn ddigartref neu rhag gorfod mynd i wely a brechwast.*

*"Mae'r Llwybr eisoes yn cael ei ddefnyddio gan rai sefydliadau, ac mae'r canlyniadau'n gadarnhaol iawn. Mae'r ymrwymiad dwi wedi'i weld gan rai cwmnïau adsefydlu cymunedol, timau troseddau ieuencid ac awdurdodau lleol wedi gwneud argraff arna i. Dwi'n falch o gael clywed sut maen nhw wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd i wella cyfleoedd pobl sy'n gadael y ddalfa a lleihau'r achosion lle mae pobl ifanc yn cael eu rhoi mewn gwely a brechwast.*

*"Heb os nac oni bai, mae llety sefydlog yn ffactor allweddol wrth geisio torri cylch troseddu."*

Bydd y Llwybr Cenedlaethol i'r rhai sy'n gadael carchar yn galluogi carcharorion sy'n wynebu digartrefedd i ddechrau derbyn cefnogaeth 56 diwrnod cyn cael eu rhyddhau. Mae'r Llwybr hefyd yn egluro rolau a chyfrifoldebau'r holl asiantaethau a sefydliadau sy'n rhan o'r broses, gan arwain at ymagwedd fwy cydlynol a gwell cefnogaeth i bobl sy'n gadael y ddalfa.

### **3.6.2 Llwyddiant Gweithredu Cadarnhaol wrth Atal Digartrefedd ym Mae'r Gorllewin**

Mae'r tabl hwn yn dangos nifer yr holl achosion ym Mae'r Gorllewin (mis Awst 2016), lle llwyddodd gweithredu cadarnhaol i atal/liniaru digartrefedd yn 2015-16, gyda dadansoddiad manylach i ddilyn:

Stats Cymru (2016)  
Mae'r wybodaeth uchod yn seiliedig ar ffurflen ystadegol flynyddol a gwblhawyd gan awdurdodau lleol yng Nghymru (cafwyd y diweddariad diwethaf ar 24.08.16).  
Cesglir yr wybodaeth hon er mwyn cadarnhau'r math o aelwydydd a dderbyniodd gymorth gan awdurdodau lleol yn ystod y cyfnod, ynghyd â'r nifer.

Felly, pa mor dda ydym ni'n ei wneud mewn gwirionedd ym Mae'r Gorllewin i atal/liniaru digartrefedd, o'i gymharu â gweddill Cymru? Mae'r tabl isod yn dangos bod yr arwyddion cynnar yn dda a'i bod yn ymddangos bod yr agenda atal yn gweithio:

	Y digartrefedd a ataliwyd	Y digartrefedd a liniarwyd
Abertawe	75.2%	24.8%
CNPT	36.4%	63.6%
Pen-y-bont ar Ogwr	51.8%	48.2%
Bae'r Gorllewin	60.0%	40.0%
Cymru Gyfan	53.2%	46.8%

*Stats Cymru (Awst 2016 ar gyfer 2015-16)*

Mae'r wybodaeth hon yn seiliedig ar ffurflenni ystadegol blynyddol a gwblhawyd gan awdurdodau lleol ar gyfer 2015-16. Fel y mae'r siart uchod yn dangos, o gyfanswm y canlyniadau yr adroddwyd amdanynt ym Mae'r Gorllewin, cafodd 60% o'r achosion hynny eu hatal yn llwyddiannus, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru gyfan o 53.2%. Mae canran Bae'r Gorllewin o ganlyniadau a liniarwyd yn llwyddiannus ychydig yn is na chyfartaledd Cymru gyfan.

Codwyd cwestiynau mewn Diwrnodau Datblygu Blaenorol ynghylch pa mor gynaliadwy yw hyn, o ystyried yr hinsawdd economaidd a'r cyfyngiadau ariannol presennol, a hefyd pa rôl y gall/bydd y Rhaglen Cefnogi Pobl yn ei chwarae wrth barhau â'r llwyddiant hwn.

Ym Mae'r Gorllewin, mae arwyddion cynnar yn awgrymu bod strategaethau ymyrryd yn gynnar ac atal yn gweithio, er mae angen mynd i'r afael â sut gellir adeiladu ar hyn a pha rôl y gall y rhaglen CP ei chwarae o ran eu cynaladwyedd yn y dyfodol, yn enwedig os daw Cyllid Trawsnewid (AT) i ben. Dangosir amlinelliad byr o CT isod.

### 3.6.3 Cyllid Trawsnewid: Deddf Tai (Cymru) 2014

Yn dilyn cyflwyno Deddf Tai (2014)<sup>10</sup>, rhoddwyd rhaglen Cyllid Trawsnewid dair blynedd ar waith a ddarparwyd o ganlyniad i asesiadau effaith ariannol a oedd yn dangos, er y dylai gweithredu'r ddeddfwriaeth newydd fod yn gost niwtral yn y pen draw, y byddai cynnydd mewn costau i ddechrau er mwyn cyflwyno'r newidiadau.

Darparwyd yr arian dros y 3 blynedd gyntaf o roi'r ddeddfwriaeth ar waith, gyda £4.9 miliwn yn cael ei roi yn y flwyddyn gyntaf, £3 miliwn ym mlwyddyn 2 (2016-17) ac £1.9 miliwn ym mlwyddyn 3 (2017-18) gyda £700,000 ychwanegol ym mlwyddyn 1 i gynorthwyo'r rhai a oedd yn gadael y ddalfa.

#### **Dyraniadau CT - Cymru**

Roedd dyrannu cyllid yn seiliedig ar y fformiwla Maes Pwnc Sector ac mae'r siart isod yn dangos dadansoddiad o'r £4.9 miliwn wreiddiol fesul rhanbarth:

<sup>10</sup> <http://llyw.cymru/topics/housing-and-regeneration/legislation/housing-act/?lang=cy>

Rhanbarth	£
Bae'r Gorllewin	820,172
Canolbarth a Gorllewin	827,903
Merthyr a RhCT	495,067
G. Cymru	1,100,060
Gwent	941,980
Caerdydd a'r Fro	714,818
Cyfanswm	4,900,000

Mae'r siart uchod yn dangos Blwyddyn 1, heb y £700,000 ychwanegol i gynorthwyo'r rhai sy'n gadael y ddalfa.

Cynhaliwyd trafodaeth â LIC ynghylch yr hyn a ddaw yn lle'r cyllid hwn ar ôl blwyddyn 3. Mae'n debygol y bydd angen am gyllid cynaliadwy wedi i'r cyllid trawsnewid ddod i ben. Mae asiantaethau eraill, gan gynnwys Shelter Cymru a Cymorth, yn pwysu ar Lywodraeth Cymru i gynnal y cyllid hwn.

Mewn ymateb i'r alwad am wybodaeth am gynigion cyllidebol drafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18, dyfynnwyd bod Shelter Cymru wedi dweud:

*"y cyllid trawsnewid y mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau ei fod ar gael i wasanaethau Datrysiadau Tai awdurdodau lleol i'w helpu i roi Rhan 2 Deddf Tai (Cymru) 2014 ar waith. Mae'r cyllid trawsnewid wedi bod yn hanfodol i lwyddiant y ddeddfwriaeth gan fod awdurdodau lleol yn ei ddefnyddio i ariannu eu cyllidebau atal digartrefedd unigol. Roedd y cyllid yn £5.6 miliwn yn 2015-16. Cafodd ei dorri i £3 miliwn ar gyfer 2016-17, gan olygu y bu'n rhaid i rai awdurdodau lleol leihau eu cyllidebau atal unigol. Byddai disgwyl i hyn gael effaith ar gyfraddau llwyddiant timau Datrysiadau Tai (Dangosydd Cenedlaethol)."*

Ym mis Rhagfyr 2016, mae'r newyddion y bydd Cyllid Trawsnewid 2017/18 yn fwy na'r £1.9miliwn a gynigiwyd yn flaenorol, ac sydd bellach yn £2.8 miliwn, yn cael ei groesawu gan Fae'r Gorllewin. Dyma'r dadansoddiad fesul ALL:

	2017-18
Abertawe	209,440
CNPT	132,160
Pen-y-bont ar Ogwr	127,120
Bae'r Gorllewin	468,720
Cymru	2,880,000

Fodd bynnag, bydd yr angen am gyllid cynaliadwy wedi i'r cyllid trawsnewid ddod i ben yn hanfodol gan fod y data'n dangos dibyniaeth fawr ar y sector rhentu preifat, ac roedd dros 50% o'r rhai a gafodd gartref wedi'i gael o ganlyniad uniongyrchol i'r cronfeydd atal a oedd ar gael drwy'r cyllid trawsnewid.

O safbwynt rhanbarthol, mae'r cwestiynau a godwyd yn Niwrnod Datblygu'r PCRh 2016 yn dal yn berthnasol, sef sut gellir sicrhau'r adnoddau digonol ar gyfer cynlluniau'r sector rhentu preifat yn y dyfodol heb gyllid trawsnewid.

#### 4. Cyflenwad, asesiad o anghenion, dadansoddiad o ganlyniadau, tystiolaeth o ymgynghoriadau a bylchau yn y gwasanaeth

---

##### 4.1 Map Cyflenwad

###### 4.1.1 Daliadaethau

Mae cyfanswm y bobl mewn llety rhentu cymdeithasol ym Mae'r Gorllewin 2% yn uwch na chyfartaledd Cymru fel y mae'r tabl isod yn ei ddangos:

	Abertawe	CNPT	Pen-y-bont ar Ogwr	Bae'r Gorllewin	Cymru
<b>Aelwydydd</b>	<b>103,497</b>	<b>60,393</b>	<b>58,515</b>	<b>222,405</b>	<b>1,302,676</b>
<b>Deiliadaeth</b>					
Yn berchen arno/Morgais	66,259 (64%)	41,479 (69%)	42,348 (73%)	150,086 (67%)	878,654 (68%)
Rhentu Cymdeithasol	19,878 (19%)	11,545 (19%)	8,099 (14%)	39,522 (18%)	214,911 (16%)
Rhentu Preifat	15,260 (15%)	6,186 (10%)	7,188 (12%)	28,634 (13%)	184,254 (14%)
Byw Heb Rent	1,792 (2%)	1,072 (2%)	737 (1%)	3,601 (2%)	20,381 (2%)

*Stats Cymru (Awst 2016)*

###### 4.1.2 Darparu Gwasanaethau a Ariennir gan y Rhaglen Cefnogi Pobl

Mae'r tabl isod yn dangos bod 7,013 o unedau cefnogaeth ar gael drwy'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn 2014-15. Cynyddodd y ffigur hyn 547 o unedau cefnogaeth i 7,560 yn 2015-16. Dadansoddir yr wybodaeth fesul grŵp cleientiaid (angen arweiniol) a'r math o gynllun:



## (Client Leads Need Category Graph)

Uned gefnogaeth yw gallu'r gwasanaeth i gefnogi un person, ac o'r tabl uchod, gallwn weld bod y nifer mwyaf o unedau ym mae'r Gorllewin ar gyfer cefnogi pobl dros 55 oed, a'r rhai ag Anableddau Dysgu (AD) a phroblemau lechyd Meddwl (IM). Mae hyn yn cyfateb i ryw raddau, gyda phoblogaeth y bobl hŷn 85+ oed ar draws y rhanbarth ychydig yn uwch (2.5%) na chyfartaledd Cymru sef 2% (manylir hyn yn Adran 4.2.1).

Bu cynnydd yn nifer yr unedau cefnogaeth o ran AD a phroblemau IM, o'i gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol. Cafwyd y cynnydd mwyaf sylweddol yn y gefnogaeth gyffredinol/yn ôl y galw. Roedd hyn yn ddisgwyliedig oherwydd tua diwedd 2014, roedd y tri ALI yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod eu cynlluniau gwario'n cyd-fynd â'i gilydd. O ganlyniad, roedd un o'r awdurdodau wedi aildrefnu ei wasanaethau cefnogaeth yn ôl y galw â'r ddau awdurdod lleol arall, sy'n cael ei ddangos bellach yn nadansoddiad o gynllun gwariant 2015-16.

### **4.1.3 Gwariant Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl fesul Grwpiau Cleientiaid**

O'r siart cylch dilynol (mis Ebrill i fis Mehefin 2016) mae'n amlwg bod y gwariant mwyaf yng nghyllideb Cefnogi Pobl Bae'r Gorllewin ar gyfer gwasanaethau AD, sy'n cyfateb i oddeutu 30% ac i bobl â phroblemau IM, ar 19% o gyfanswm y gyllideb. Mae hyn yn cymharu â phobl â phroblemau camddefnyddio alcohol a sylweddau ar 4% o'r gyllideb. Mae gan y grŵp cleientiaid hwn fynediad i ffrydiau cyllido eraill y tu allan i Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl. Mae'r gwariant hwn yn cynnwys cefnogaeth yn ôl y galw a gwasanaethau safle sefydlog (Llety â Gefnogir).

## Canran y Gwariant Grant fesul Grwpiau Cleientiaid

### Pie Chart

Mae'r tabl canlynol yn cymharu'r gwariant â nifer yr unedau a brynwyd;

## Client Group Table

Mae gwasanaethau AD yn derbyn y gyfran uchaf o gyllideb CP Bae'r Gorllewin (30%), fodd bynnag, mae'n darparu 7% yn unig o gyfanswm yr holl unedau cefnogaeth yn gyffredinol. Yn yr un modd, mae pobl â phroblemau IM yn derbyn 19% o'r gyllideb ac yn darparu 7% o gyfanswm yr unedau cefnogaeth. Mae llety a gefnogir sefydlog tymor hir yn tueddu i gefnogi'r rhai ag anghenion cefnogaeth uwch a chymhleth. Mae'r costau uwch yr uned yn adlewyrchu'r dwysedd cefnogaeth uwch h.y. mwy o amser staff.

Mae hyn mewn cyferbyniad â'r gefnogaeth a ddarperir i'r grŵp cleientiaid dros 55 oed sy'n derbyn 10% yn unig o'r gyllideb CP ac yn darparu 49% o'r cyfanswm unedau cefnogaeth yn gyffredinol. Y rheswm am hyn yw bod angen llai o gefnogaeth ar y rhan fwyaf o bobl h.y. llai o amser staff, a darperir hyn iddynt drwy gefnogaeth yn ôl y galw a thai lloches e.e. Rheolwyr Cynlluniau/Staff Cefnogi a larymau cymunedol.

### 4.2 Asesiad o Anghenion

#### 4.2.1 Poblogaeth Bae'r Gorllewin

Cyfanswm y boblogaeth ar gyfer y rhanbarth yn 2016 yw 527,230, ac o'i rhannu fesul awdurdod lleol, dyma'r ffigurau:

Abertawe	242,469
Castell-nedd Port Talbot	142,274
Pen-y-bont ar Ogwr	140,471

Mae'r tabl canlynol yn dangos rhagamcaniadau poblogaeth awdurdodau lleol ar gyfer 2016-20:

	2017	2018	2019	2020
Abertawe	244,266	246,095	247,948	249,806
Castell-nedd Port Talbot	142,913	143,548	144,175	144,788
Pen-y-bont ar Ogwr	141,298	142,122	142,940	143,744
Cyfanswm Bae'r Gorllewin	530,494	533,783	537,082	540,358

Swyddfa Ystadegau Gwladol LIC, Hydref 2016

Disgwylir i'r boblogaeth ym Mae'r Gorllewin gynyddu ychydig dros ddeng mil erbyn 2020.

Mae'r tabl isod yn dangos y dadansoddiad poblogaeth rhanbarthol yn ôl oed, ac yn dangos bod poblogaeth Bae'r Gorllewin o'r rhai rhwng 16 ac 17 oed ychydig yn is (2.5%) na chyfartaledd Cymru (3%). Dyma'r achos hefyd ar gyfer pobl 60-84 oed lle mae'r cyfanswm rhanbarthol (22%) ychydig yn is na chyfartaledd Cymru sef 23%. Serch hynny, mae'r dadansoddiad yn dangos bod y boblogaeth pobl hŷn 85+ oed ar draws y rhanbarth ychydig yn uwch (2.5%) na chyfartaledd Cymru (2%).

	Abertawe	CNPT	Pen-y-bont ar Ogwr	Bae'r Gorllewin	Cymru
<b>Poblogaeth</b>	239,023	139,812	139,178	518,013	3,063,456
Oed					
0-15	41,396 (17%)	24,637 (18%)	25,288 (18%)	91,321 (18%)	556,296 (18%)
16-17	5,412 (2%)	3,599 (3%)	3,558 (3%)	12,569 (2.5%)	77,111 (3%)
18-29	44,083 (18%)	20,233 (14%)	19,899 (14%)	84,215 (16%)	482,493 (16%)
30-59	90,344 (38%)	56,009 (40%)	56,444 (41%)	202,797 (39%)	1,180,127 (39%)
60-84	52,033 (22%)	32,082 (23%)	30,949 (22%)	115,064 (22%)	692,869 (23%)
85+	5,755 (2%)	3,452 (2%)	3,040 (2%)	12,247 (2.5%)	74,560 (2%)
<b>BME</b>	14,300 (6%)	2,725 (2%)	3,088 (2%)	20,113 (4%)	135,203 (4%)

Stats Cymru (2016)

Mae'r tabl a ddangosir isod yn dangos bod y rhanbarth yn cynnwys oddeutu 17% o gyfanswm poblogaeth Cymru, gydag ychydig dros 500,000 o drigolion. Mae'r dwysedd poblogaeth cyffredinol yn uwch na chyfartaledd Cymru, gan adlewyrchu cyfansoddiad trefol yr ardal yn bennaf. Mae gan Abertawe'r dwysedd poblogaeth uchaf yn yr ardal, gyda thros 600 o bobl y cilomedr sgwâr.

	Canol blwyddyn 2012	Canol blwyddyn 2013	Canol blwyddyn 2014	Canol blwyddyn 2015	%
Cymru	3,074,067	3,082,412	3,092,036	3,099,086	
Abertawe	239,633	240,332	241,297	242,382	7.8%
CNPT	140,108	139,898	140,490	140,992	4.5%
Pen-y-bont ar Ogwr	139,740	140,480	141,214	142,092	4.6%
Cyfansymiau	<b>519,481</b>	<b>520,710</b>	<b>523,001</b>	<b>525,466</b>	<b>17.0%</b>

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)<sup>11</sup> yw mesur swyddogol Llywodraeth Cymru o amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru. Mae'n nodi ardaloedd bach lle ceir y crynadau uchaf o'r gwahanol fathau o amddifadedd, ac mae'n mesur amddifadedd lluosog fel mesur sy'n seiliedig ar ardal ac yn fesur o amddifadedd cymharol.

Ardal	Pob oed
<b>Cymru</b>	<b>16%</b>
Abertawe	17%
Castell-nedd Port Talbot	20%
Pen-y bont ar Ogwr	17%

*Data Mynegai 2014 Malc, Mai 2016*

Mae'r tabl uchod yn dangos bod y tri awdurdod lleol yn rhanbarth Bae'r Gorllewin ychydig yn uwch na gweddill Cymru (2014) ar gyfer amddifadedd cymharol i bob oed<sup>12</sup>. Byddech felly'n disgwyl gweld cydberthyniad rhwng ardaloedd lle ceir mwy o amddifadedd a chynnydd mewn materion sy'n ymwneud ag iechyd, yr angen am lety rhentu cymdeithasol a ffigurau diweithdra uwch. Mae'r adrannau canlynol yn ymchwilio i weld a yw hyn yn wir.

#### 4.2.2 Materion Iechyd

Mae'r tabl isod yn darparu dadansoddiad o nifer y bobl sy'n profi problemau iechyd, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Mae ffigurau rhanbarthol ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru, gyda'r amrywiad mwyaf gyda phobl y mae eu gweithgareddau dyddiol yn gyfyngedig, sy'n 2% yn uwch na chyfartaledd Cymru.

	Abertawe	CNPT	Pen-y-bont ar Ogwr	Bae'r Gorllewin	Cymru
Pobl â phroblem iechyd neu anabledd tymor hir	32,178 (13%)	21,063 (15%)	18,509 (13%)	71,750 (14%)	395,883 (13%)
Gweithgareddau beunyddiol wedi'u cyfyngu	55,718 (23%)	39,112 (28%)	34,359 (25%)	129,189 (25%)	695,855 (23%)
Iechyd Gwael	19,348 (8%)	14,629 (10%)	12,383 (9%)	46,360 (9%)	233,607 (8%)

*Stats Cymru (Awst 2016)*

<sup>11</sup> <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Welsh-Index-of-Multiple-Deprivation/WIMD-2014/wimd2014localauthorityanalysis>

<sup>12</sup> Dangosyddion Cenedlaethol ar gyfer Cymru

Mae'r tabl isod yn dangos bod cyfanswm y tâl wythnosol gros yn y rhanbarth yn uwch na chyfartaledd Cymru, fodd bynnag, mae Bae'r Gorllewin ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru ar gyfer y rhai sy'n derbyn budd-daliadau am eu bod yn ddi-waith.

	Abertawe	CNPT	Pen-y-bont ar Ogwr	Bae'r Gorllewin	Cymraeg
Tâl Wythnosol Gros	£485.10	£486.00	£512.40	£494.50	£473.40
Ar fudd-daliadau i'r di-waith	2.3% (3,605)	2.5% (2,165)	2.1% (1,870)	2.3% (7,640)	2.2%

Stats Cymru (Awst 2016)

### 4.2.3 Ffigurau Cyflogaeth

Mae ffigurau cyflogaeth y gweithle<sup>13</sup> fesul diwydiant cyffredinol ym Mae'r Gorllewin (2015) yn dangos bod ffigurau diweithdra Bae'r Gorllewin yn cyfateb i 17% o boblogaeth Cymru.

## Table

Stats Cymru (2016)

O'i gymharu â gweddill y DU, mae cyfradd ganrannol yr holl bobl ddi-waith dros 12 mis neu fwy yng Nghymru gyfan yn uwch na'r cyfartaledd.

## Table

Stats Cymru (2016)

Mae'r ffigurau diweithdra tymor hir yn 2016 yn dangos bod Abertawe islaw'r cyfartaledd y DU a Chymru, mae CNPT yn uwch na'r ddwy, a barnwyd nad oedd gwybodaeth yn ddigon cadarn i'w chyhoeddi yn 2016 ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr. Fodd bynnag, yn y flwyddyn flaenorol (2015), roedd ffigurau diweithdra tymor hir Pen-y-bont ar Ogwr yn uwch na chyfartaledd y DU a Chymru.

## Table

Stats Cymru (2016)

<sup>13</sup> Dangosyddion Cenedlaethol ar gyfer Cymru

## **Crynodeb**

O gofio bod y tri awdurdod lleol yn rhanbarth Bae'r Gorllewin ychydig yn uwch na gweddill Cymru (2014) ar gyfer amddifadedd cymharol ar gyfer pob oed, mae'n ymddangos bod cydberthyniad â materion iechyd, yr angen am lety rhentu cymdeithasol a ffigurau diweithdra, y mae pob un ohonynt yn uwch na chyfartaledd Cymru.

### **4.2.4 Digartrefedd (Canlyniadau Chwarterol)**

Darperir canlyniadau gan Dimau Tai'r ALI ar geisiadau digartrefedd bob chwarter at ddibenion monitro a chydymffurfio â chontractau. Defnyddir y data hwn gan Lywodraeth Cymru, asiantaethau digartrefedd a sefydliadau tai eraill er mwyn helpu i fonitro tueddiadau yn lefel gyffredinol y digartrefedd statudol yng Nghymru.

Yn ystod 2015-16 aseswyd bod cyfanswm o 1,527 o aelwydydd ym Mae'r Gorllewin dan fgythiad o ddigartrefedd o fewn 56 diwrnod (Adran 66) ac ar gyfer 909 o aelwydydd (60%), llwyddwyd i atal digartrefedd am o leiaf 6 mis.

Aseswyd bod cyfanswm o 1,284 o aelwydydd ym Mae'r Gorllewin yn ddigartref, a bod dyletswydd i'w helpu i sicrhau llety yn ystod 2015-16 (Adran 73). O'r rhain, llwyddwyd i liniaru digartrefedd 606 o aelwydydd (47%) a'u cynorthwyo i sicrhau llety am fwy na 6 mis.

Yn yr un cyfnod (2015-16), aseswyd bod 150 o aelwydydd yn ddigartref yn ddifwriad ac mewn angen blaenoriaethol ac yn gymwys am y ddyletswydd i sicrhau llety iddynt. O'r rhain, cafodd 90 o aelwydydd (60%) eu rhyddhau'n gadarnhaol gan dderbyn cynnig o lety parhaol.

Table

Table

Mae'r siart canlynol yn crynhoi cyfradd lwyddiant adrannau 66, 73 a 75 ym Mae'r Gorllewin.

## Chart

Felly, sut mae Bae'r Gorllewin yn cymharu â gweddill Cymru?

## Graph

Yng Nghymru:

Llwyddwyd i atal 65% o ddigartrefedd am o leiaf 6 mis o'i gymharu â 60% ym Mae'r Gorllewin. Lliniarwyd digartrefedd 45% ohonynt yn llwyddiannus o'i gymharu â 47%. Rhyddhawyd 80% o aelwydydd yn gadarnhaol o'u cymharu â 60% ym Mae'r Gorllewin

### 4.2.5 Llety Dros Dro

Gall y rhesymau dros roi aelwydydd mewn llety dros dro amrywio, ond gall gynnwys aros i ymchwiliad i gais gael ei gwblhau, neu dreulio amser yn aros mewn llety dros dro ar ôl i gais gael ei dderbyn nes bod llety diogel addas ar gael.



Wrth annerch cynhadledd flynyddol Shelter Cymru yn 2016, dywedodd Carl Sargeant, yr Ysgrifennydd Cymunedau, ei fod am wneud mwy o gynnydd o ran lleihau nifer y bobl ifanc sy'n cael eu rhoi mewn llety gwely a brecwast. Meddai

*"Rydyn ni eisoes wedi cymryd camau i sicrhau mwy o gydweithio rhwng timau digartrefedd a gwasanaethau plant mewn awdurdodau lleol ond rydw i am weld tipyn mwy yn cael ei wneud i osgoi defnyddio llety dros dro.*

*"Rwy'n deall y galw am wahardd yr arfer yn llwyr ond mae angen i ni gael dewis arall yn ei le er mwyn osgoi gorfod anfon pobl ifanc at lety filltiroedd i ffwrdd o'u teulu, eu ffrindiau a'u lleoliadau hyfforddiant neu addysg.*

*"Rwy'n falch iawn bod mwy na hanner ein hawdurdodau lleol bellach wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio llety Gwely a Brecwast i bobl ifanc, ond rwyf o'r farn bod mwy y gallwn ni ei wneud i annog y Gwasanaethau Plant i weithio'n agosach fyth â'u cydweithwyr yn yr Adran Tai wrth gynllunio a darparu gwasanaethau."*

Aed ar drywydd sawl menter i geisio cyfyngu ar y defnydd o lety gwely a brecwast dros dro. Er enghraifft, mae awdurdodau lleol ym Mae'r Gorllewin wedi canolbwyntio ar sicrhau tai rhentu preifat drwy gytundebau prydles â landlordiaid preifat. Fodd bynnag, mae'r diwygiadau i Fudd-dal Tai wedi effeithio ar eu gallu i wneud hyn, sy'n golygu y gall landlordiaid sicrhau mwy o elw drwy osod eu heiddo ar y farchnad agored i hawlwr nad ydynt yn hawlio Budd-dal Tai, er nad yw pob ymgeisydd digartref yn derbyn Budd-dal Tai. Yn ogystal, mae gan y 3 ALI achosion anghenion cymhleth lle mae dod o hyd i ateb yn heriol iawn.

Ar ddiwedd y cyfnod Ionawr-Mawrth 2015-16, roedd 132 o aelwydydd mewn llety dros dro ym Mae'r Gorllewin.

	Y cyfanswm a gafodd lety dros dro ar ddiwedd y chwarter
Abertawe	42
Castell-nedd Port Talbot	27
Pen-y-bont ar Ogwr	63
Bae'r Gorllewin	132

Roedd 18 o aelwydydd (14%) mewn llety gwely a brecwast dros dro ac mae'r siart isod yn dangos y dadansoddiad llawn:

## Pie Chart

Ers mis Ebrill 2016, casglwyd data <sup>14</sup> am y llety gwely a brecwast sydd wedi'i ddarparu drwy ddeddfwriaeth ddigartrefedd neu wasanaethau gofal ar gyfer pobl ifanc 16 a 17 oed a phobl rhwng 18 a 21 oed sy'n gadael gofal. Fodd bynnag, o ganlyniad i nifer y newidiadau a geir yn Neddf Tai (Cymru) 2014, ni ellir cymharu data chwarterol â'r data ar ddigartrefedd statudol a gyhoeddwyd cyn mis Ebrill 2015 ac nid ydynt yn cael eu hystyried fel ystadegau cenedlaethol eto. Felly, ni luniwyd data cymharol oherwydd bod nifer o ffactorau wedi effeithio ar ansawdd a chywirdeb y data a gafodd ei gasglu a'i gyhoeddi ar ddigartrefedd statudol ar gyfer 2015-16.

Yn Niwrnod Datblygu PCRh ym mis Mai 2016, bu pwyslais ar flaenoriaeth LIC i leihau a chael gwared, os yw'n bosib, ar lety gwely a brecwast, felly mae'n parhau i fod yn uchel ar restr blaenoriaethau rhanbarthol Bae'r Gorllewin.

### 4.3 Dadansoddiad o Ganlyniadau

Cyflwynwyd y Fframwaith Canlyniadau gan Lywodraeth Cymru i helpu i ddeall yn well yr effaith y mae cefnogaeth sy'n ymwneud â thai yn ei chael. Ers 2013, bu'n ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru gasglu data canlyniadau ar gyfer yr holl wasanaethau sy'n derbyn Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl. Cofnodir canlyniadau bob 6 mis a/neu pan fydd defnyddiwr gwasanaeth yn gadael cynllun neu mae ei gefnogaeth yn cael ei thynnu'n ôl. Hefyd, dylid bod yn ochelgar lle gall defnyddiwr gwasanaeth symud rhwng gwasanaethau a ariennir gan Gefnogi Pobl yn ystod yr un cyfnod amser at ddibenion camu i fyny neu gamu i lawr ac felly, gallai ffigurau a gofnodir gael eu dyblygu.

Mae Canllawiau Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl (Mehefin 2013) <sup>15</sup> yn rhoi pwyslais ar 'wasanaethau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau' a diben yr adran hon yw archwilio'r data canlyniadau o safbwynt rhanbarthol ac amlygu meysydd i'w hystyried er mwyn dangos effaith a gwerth y gwasanaethau Cefnogi Pobl.

---

<sup>14</sup> StatsCymru

<sup>15</sup> <http://llyw.cymru/docs/desh/publications/130607sppgrantguideen.pdf>

Wrth roi'r Fframwaith Canlyniadau ar waith, pwysleisiodd Llywodraeth Cymru mai'r bwriad oedd defnyddio'r data fel offeryn rheoli ar gyfer awdurdodau a darparwyr lleol, i weithredu fel 'agorwr tuniau' wrth helpu i ddeall cynnydd unigolyn tuag at fwy o annibyniaeth o ganlyniad i dderbyn cefnogaeth. Nid oedd yn fwriad i awdurdodau lleol ddefnyddio canlyniadau i gymharu gwasanaethau neu fel offeryn comisiynu/datgomisiynu.

Mae'r Ysgrifennydd dros Gymunedau a Phlant, Carl Sargeant, wedi pwysleisio pwysigrwydd cyflwyno tystiolaeth am yr hyn y mae ffrwd cyllido Cefnogi Pobl yn ei gyflawni. Er enghraifft:

- Darparwr cam-drin domestig - dengys canlyniadau fod nifer uchel o achosion wedi'u cau oherwydd diffyg cyfranogaeth, pan fo'r unigolion wedi dychwelyd adref i'r troseddwr mewn gwirionedd, ond nid oes unrhyw opsiwn i ddangos hyn.
- Gwasanaeth Pobl Ifanc - mae wedi nodi nifer cynyddol o bobl ifanc â phroblemau o ran defnyddio sylweddau, ac o ganlyniad trefnwyd i Ganolfan Gweithredu ar Ddibyniaeth a Chaethiwed Cymru (WCADA) fod yn bresennol yn ei swyddfa unwaith yr wythnos.

Ers 2015, mae'r PCRh wedi defnyddio ymagwedd fwy cydweithredol a rhanbarthol i ddadansoddi'r data canlyniadau i sicrhau parhad y data sy'n cael ei gasglu.

Cyfanswm Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl ar gyfer Bae'r Gorllewin yn 2015/16 oedd £24,428,832. Ei ddiben oedd darparu 7,560 uned o gefnogaeth wedi'i chomisiynu a chyllideb sefydlog mawr ei chroeso yn 2016-17 i ddarparu oddeutu 8,615 uned o gefnogaeth wedi'i chomisiynu.

Mae'r canlynol yn rhoi trosolwg o'r data a ddarparwyd gan y tri awdurdod lleol ar gyfer y cyfnod 1 Hydref 2015 tan 31 Mawrth 2016.

## Chart

Mae'r siart yn dangos yn glir fod y nifer mwyaf o bobl sydd wedi cael eu hadolygu yn ystod y cyfnod adrodd hwn yn y categori pobl hŷn, gyda phobl â phroblemau iechyd meddwl yn ail, yna anabledau corfforol a dysgu a menywod sy'n profi cam-drin domestig yn dilyn. Y dadansoddiad rhanbarthol o'r data hwn sydd wedi cael ei ddefnyddio i gefnogi penderfyniad y PCRh i flaenoriaethu'r meysydd hyn fel rhan o'r broses datblygu rhanbarthol.

## 4.4 Ymgynghoriad

### 4.4.1 Darparwyr Cefnogaeth

Mae gan bob un o'r tri awdurdod lleol ym Mae'r Gorllewin Fforwm Cefnogi Pobl a Darparwr Digartrefedd ar y cyd a gynhelir bob chwarter. Mae'r tri awdurdod lleol wedi cytuno mewn egwyddor i'r Cylch Comisiynu a Chynllunio Rhanbarthol (tudalen 40), ac er bod fformat y fforymau'n amrywio, mae pob un yn darparu'r cyfle i ddarparwyr gwasanaeth ymwneud â materion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae hefyd yn rhoi'r cyfle i ddarparwyr hysbysu a chael dylanwad. Drwy'r fforymau hyn, rhoddwyd ystyriaeth, er enghraifft, i ddatblygiad Cynlluniau Comisiynu Lleol, datblygiad y Cynllun Strategol Rhanbarthol, gofynion deddfwriaethol newydd, e.e. Diwygio lles a rhoi gweithdrefnau a gofynion newydd ar waith megis monitro a chomisiynu canlyniadau.

Yn ogystal â fforymau darparwyr lleol, mae Cymorth wedi sefydlu a hwyluso Fforwm Darparwyr Rhanbarthol (FfDRh), sy'n galluogi darparwyr PCRh a chynrychiolwyr landlordiaid i ymgynghori â darparwyr yn uniongyrchol ynghylch y materion sy'n cael eu trafod a'u hystyried gan y PCRh. Mae cynrychiolwyr etholedig darparwyr y PCRh yn mynychu'r holl fforymau a hwy sy'n cynrychioli llais a barn defnyddwyr gwasanaeth.

### 4.4.2 Cydgynhyrchu a Chynnwys Defnyddwyr y Gwasanaeth

Mae'r pwyslais ar gyd-gynhyrchu wedi cael ei bwysleisio yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, a gellir ei ddiffinio fel dinasyddion a gweithwyr proffesiynol yn rhannu pŵer ac yn cydweithio fel partneriaid cyfartal i gynllunio a chyflwyno gofal a chefnogaeth ac adeiladu cymunedau cryfach. Mae'n:

*"ymagwedd at wasanaethau cyhoeddus sy'n seiliedig ar berthnasoedd cyfartal a chytbwys rhwng gweithwyr proffesiynol, pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau, eu teuluoedd a'u cymunedau."*<sup>16</sup>

Cyflwynwyd nifer o newidiadau deddfwriaethol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, ynghyd â thoriadau a chyfyngiadau ariannol. Mae darparwyr gwasanaeth wedi gorfod ailwerthuso'r ffordd fwyaf cost effeithiol i gyflwyno'u gwasanaethau, a gweld lle gellir cyflawni gwerth am arian. Cydgynhyrchu yw'r broses lle mae dinasyddion a gweithwyr proffesiynol yn gweithio gyda'i gilydd i greu gwasanaeth sy'n gweithio iddynt hwy.

Mae'r broses gydgynhyrchu wedi'i hintegreiddio'n llawn i un darparwr gwasanaeth ym Mae'r Gorllewin. Mae Cartrefi CNPT yn Ddarparwr Gwasanaeth a ariennir gan y Grant Cefnogi Pobl. Dros y 12 i 18 mis diwethaf mae'r cwmni wedi gwreiddio cydgynhyrchu i'w fywyd a'i arferion gweithio. I ddechrau, roedd pawb a oedd yn rhan o'r broses yn teimlo anesmwythder yn ei chylch, ond bellach fe'i hystyrir yn ffordd lwyddiannus iawn o weithio.

<sup>16</sup> Iechyd Cyhoeddus Cymru/Cydgynhyrchu Cymru

Mae Cartrefi CNPT wedi integreiddio cydgynhyrchu i'w ffyrdd o ddarparu gwasanaethau ac mae wedi rhannu ei brofiadau a'i ganlyniadau ag aelodau'r Grŵp Llywio Ymuno Rhanbarthol. Adroddwyd yn ôl am hyn i'r PCRh, Fforwm Darparwyr Cefnogi Pobl a Digartrefedd Castell-nedd Port Talbot, ac mae wedi rhannu ei arfer da â darparwyr eraill. Yn dilyn sesiwn gyflwyno ar gydgynhyrchu yng nghyfarfod y Grŵp Llywio Ymuno Rhanbarthol (GLIYRh) yn 2016, mae'r Fforwm Darparwyr Rhanbarthol ar fin cyd-ddylunio'r gwaith i ddiweddarau'r Fframwaith Ymuno a Chylch Gorchwyl y Grŵp Llywio.

Fel rhan o adolygu a monitro gwasanaethau a ariennir gan y Rhaglen CP, mae darparwyr gwasanaethau yn Rhanbarth Bae'r Gorllewin dan rwymedigaeth gytundebol i gysylltu â defnyddwyr gwasanaeth i sicrhau yr ymgynghorir â hwy ar benderfyniadau a gwasanaethau a fydd yn effeithio ar eu bywydau ac a fydd yn cynorthwyo wrth ddatblygu gwasanaethau hyd yn oed ymhellach i ddiwallu anghenion tai a chefnogaeth. Mae'r PCRh yn cydnabod bod darparwyr gwasanaeth yn cydgynhyrchu gwasanaethau'n ddyddiol, a bod cynrychiolwyr darparwyr/landlordiaid mewn fforymau lleol a rhanbarthol yn cynrychioli barn, materion a phryderon defnyddwyr gwasanaeth.

Cyfarfu'r GLIYRh yn 2016. Cafwyd cyflwyniad ar gydgynhyrchu ac roedd rhai cynrychiolwyr darparwyr yn bresennol. Fodd bynnag, y cam gweithredu a'r ffordd ymlaen a ddeilliodd o'r grŵp hwn oedd rhoi'r dasg o arwain ar gyd-ddylunio'r fframwaith Ymuno Rhanbarthol ac adrodd yn ôl i'r PCRh nesaf a chyfarfod y Grŵp Llywio Ymuno i'r FfDRh. Hefyd, yn dilyn hyn, anfonwyd holiadur e-bost ynghyd â chais am ateb i'r cwestiwn canlynol:

Sut rydym yn cyd-ddylunio cyfranogaeth Defnyddwyr Gwasanaeth wrth gydgynhyrchu gwaith y PCRh yn enwedig y Cynllun Strategol Rhanbarthol?

Mewn ymateb i'r holiadur, rhoddwyd yr awgrymiadau a'r sylwadau canlynol:

- Mae cyfranogaeth defnyddwyr gwasanaeth eisoes yn cael ei gyflwyno gan ddarparwyr drwy eu harferion presennol ac maent yn bwydo eu barn yn ôl drwy fynd i fforymau lleol a rhanbarthol.
- Dylem hefyd fod yn ymgynghori â'r dinesydd ehangach oherwydd gallai rhywun fod yn gleient/defnyddiwr gwasanaeth posib ar unrhyw adeg.
- Darparwyr i wahodd Cydlynnydd Datblygu Rhanbarthol i ddigwyddiadau defnyddwyr gwasanaethau i gael blas ar sefydliadau ac arferion gwahanol, a dealltwriaeth ohonynt.
- Adborth i'r PCRh am gyfranogiad defnyddwyr gwasanaeth gan dimau CP o ymweliadau monitro/adolygiadau o gynlluniau.

Yn y flwyddyn i ddod, ceisir arweiniad y PCRh ynghylch sut mae am i ddefnyddwyr gwasanaeth gael eu cynnwys, ynghyd â chadarnhad ynghylch pa wasanaethau y gellid eu cydgynhyrchu. Byddai'r FfDRh yn cael ei arwain gan y penderfyniad hwnnw.

#### **4.4.3 Grwpiau Cymunedol**

Sefydlwyd y Grŵp Cymunedol Ymuno (Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr) yn ogystal â'r FfDRh, gan adlewyrchu fformat y Grŵp Llywio ac ymgysylltu'n fwy â defnyddwyr gwasanaeth yn lleol. Cadeiriwyd y grŵp gan ddefnyddiwr gwasanaeth a'i gefnogi gan dimau Cefnogi Pobl lleol.

Rhoddodd y grŵp gyfle i ddefnyddwyr gwasanaeth:

- Roi adborth ar ddogfennau, adroddiadau a chynlluniau drafft

- Rhoi adborth ar ymgynghoriadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol
- Ystyried blaenoriaethau comisiynu lleol ar gyfer y ddwy ardal fwrdeistrefol megis rheoli cyllid ar gyfer y Rhaglen Cefnogi Pobl.
- Ymgymryd â darnau o waith a osodwyd gan y FfDRh neu'r PCRh

Cynhaliwyd trafodaethau rhwng awdurdodau Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr i sefydlu cyfarfodydd defnyddwyr gwasanaeth mwy rheolaidd ac amlach, yn unol â Chylch Strategol Rhanbarth Bae'r Gorllewin. Teimlwyd, er mwyn osgoi dyblygu mewn gweithgareddau/cyfranogaeth defnyddwyr gwasanaeth y byddai angen rhywfaint o gyfarwyddyd gan y FfDRh trosgynnol.

#### 4.4.4 Gwerthusiadau'r Gwasanaeth

Fel rhan o fformat gwerthuso'r gwasanaeth rhagnodedig, mae holiadur defnyddwyr gwasanaeth yn ceisio barn y gwasanaeth Cefnogi Pobl am y gwasanaethau maent yn eu derbyn, i alluogi gwell dealltwriaeth o sut mae gwasanaethau Cefnogi Pobl yn eu helpu hwy yn ogystal ag amrywiaeth o gyfweiliadau wyneb yn wyneb a gynhelir fel rhan o werthuso'r gwasanaeth. Caiff defnyddwyr gwasanaeth eu cynnwys wrth werthuso'r gwasanaethau Cefnogi Pobl ac maent wedi dylanwadu ar lawer o argymhellion a wnaed. Fodd bynnag, mae'r PCRh wedi cydnabod nad yw'r adborth ar yr hyn sydd gan ddefnyddwyr gwasanaeth ei ddweud wedi cael ei drefnu fesul thema, na'i adrodd yn ôl i'r PCRh. Mae ymrwymiad i wneud hyn wrth symud ymlaen.

### 4.5 Bylchau yn y Gwasanaeth

#### 4.5.1 Contractio Rhanbarthol

Bydd cyfarfodydd contractio rhanbarthol, wedi'u hysgogi a'u cymeradwyo gan y PCRh, yn dal i gael eu cynnal yn rheolaidd a bydd eitemau agenda safonol yn cynnwys diweddariad rhanbarthol lle caiff cyfleoedd rhanbarthol eu hystyried, megis:

- Adolygu a diweddarau rhestr o ddarparwyr rhanbarthol ar draws Bae'r Gorllewin gyda chytundeb i ehangu gwybodaeth i gynnwys mwy o wybodaeth am gynlluniau a gomisiynwyd gan gynnwys arbenigeddau pan fo'n berthnasol.
- Adolygu egwyddorion i weithio tuag at werthuso a monitro contractau'n rhanbarthol sy'n cael eu hystyried fesul achos.
- Gwella'r cydlynid a'r cyfathrebu ar gyfer darparwyr traws-ranbarthol mewn cyfarfodydd monitro, gwerthuso a chontract. Bydd camau gweithredu'n cynnwys:
  - Cefnogi timau pobl i hysbysu partneriaid rhanbarthol cyn cyfarfod contract ac ystyried cyfarfod ar y cyd, cyfrannu at yr agenda etc.
  - Datblygu amserlen cyfarfod contract rhanbarthol i wella cydlynid ac ymagwedd ar y cyd lle y bo'n bosib.
  - Diweddarau'r amserlen werthuso i'w rhannu ar draws rhanbarthau, ac ystyried cyfleoedd rhanbarthol lle y bo'n bosib.
  - Ymagweddau rhanbarthol i'w hystyried at ddibenion monitro a gwerthuso ar gyfer darparwyr traws-ranbarthol.
  - Rhannu gwybodaeth, themâu a phryderon i alluogi ymagwedd fwy cydlynus a phenodol i fonitro cynnydd wrth gyflawni argymhellion.

- Cydlynu adolygiadau blynyddol ar gyfer cynlluniau/darparwyr traws-ranbarthol, i'w cynnal ar y cyd.
- Adroddiadau gwerthuso i'w rhannu rhwng rhanbarthau.
- Timau Cefnogi Pobl i ymweld ar y cyd ag ardaloedd awdurdodau lleol eraill i drafod eu profiad a rhannu arbenigedd mewn caffael.
- Ymweliad monitro gan un awdurdod lleol ar ran rhanbarth ar gyfer cynllun traws-ranbarthol.
- Darparu cefnogaeth ar draws rhanbarthau wrth gyflwyno aelodau tîm newydd i wella ymagwedd gyson at fonitro a gwerthuso.
- Amserlenni gwerthuso i'w rhannu ar draws rhanbarthau pan fydd hynny'n bosib.
- Gwerthusiadau Strategol Dosbarthedig ar gyfer darparwyr a rennir ar draws rhanbarthau lle y bo modd.

Gostyngwyd y Grant Cefnogi Pobl 5.45% yn 2015-2016. Serch hynny, cafwyd cyllideb sefydlog dros y 2 flynedd ddiwethaf, a groesawyd. Bydd awdurdodau lleol Bae'r Gorllewin yn archwilio mwy o arbedion effeithlonrwydd ar gyfer 2017/18 drwy werthuso gwasanaethau ac ail-lunio a chaffael gwasanaethau i gyflawni gwell canlyniadau a mwy o effeithlonrwydd. Gall hyn gynnwys tendro gwasanaethau drwy Gwerthwch i Gymru. Cynhaliwyd digwyddiadau i gyflenwyr neu bwriedir eu cynnal drwy Gwerthwch i Gymru mewn rhai ALI.

Bydd cyfle hefyd i drafod unrhyw arbedion ychwanegol â darparwyr gwasanaethau yn dilyn cyfarfodydd Cydgysylltu Contractau Rhanbarthol a gynhelir drwy gydol y flwyddyn.

#### **4.5.2 Rhestr Aros**

Un o'r heriau wrth ddadansoddi data'n rhanbarthol sydd wedi dod i'r amlwg yw bod y gofrestr tai yn wahanol ym mhob awdurdod lleol. Er enghraifft, mae gan Abertawe restrau aros unigol ac ar gyfer pob un o'r LCC, ac mae gan yr awdurdod hawliau enwebu i LCC. Hefyd, maent yn defnyddio polisi dyrannu sy'n seiliedig ar bwyntiau, sy'n seiliedig ar angen. Mae gan Gastell-nedd Port Talbot, fodd bynnag, gofrestr gyffredin a rhestr aros sy'n seiliedig ar ddewis gyda'r awdurdod a Chartrefi CNPT. Mae ganddo restrau aros unigol ar gyfer LCC eraill ac mae gan yr awdurdod hawliau enwebu. Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ceir cofrestr tai gyffredin ar gyfer yr awdurdod a holl bartneriaid LCC a Pholisi Dyrannu Tai Cymdeithasol Cyffredin ar gyfer 75% o'r dyraniad gyda'r 25% sydd ar ôl yn cael ei chadw gan y LCC i'w dyrannu.

Mae'r ffordd y cesglir data rhestrau aros ailgartrefu yn wahanol ym mhob ALI, felly o gofio hyn, mae'r ystadegau sydd ar gael yn dangos mai cyfanswm Abertawe ar y rhestr aros yw 3,142, cyfanswm CNPT yw 2,301 a chyfanswm Phen-y-bont ar Ogwr yw 1,274. Mae hyn yn anghyson â'r maint o ran poblogaeth pob awdurdod - Abertawe yw'r mwyaf, yna Pen-y-bont ar Ogwr ac yna CNPT. Mae'r data felly'n awgrymu bod mwy o alw yn yr ALI lleiaf yn y rhanbarth, sydd â mwy ar ei restr aros na'r hyn sydd gan un o'r awdurdodau lleol mwy.

Mae'r tabl isod yn dangos yn glir, ni waeth beth yw maint awdurdod lleol, mai'r angen mwyaf gyda phob awdurdod lleol yw'r angen am lety sengl. Cyfanswm Abertawe oedd 3,210, CNPT 1,225 a 878 Phen-y-bont ar Ogwr 878 ac roedd y cyfanswm ar bob rhestr aros yn llawer mwy na chyfanswm y dyraniad blynyddol.

	Abertawe	CNPT	Pen-y-bont ar Ogwr
Cyfanswm ar y rhestr aros	3,142	2,301 1,895 ar waith	1,274
1 ystafell wely	3,210	1225	878
2 ystafell wely	1,601	499	202
3 ystafell wely	523	357	106
4+ ystafell wely	169	73	88
Dyraniadau'r flwyddyn	1,430	949	451

Stats Cymru 2015-16

#### 4.5.3 Holiadur Monitro

Yn hanesyddol, mae awdurdodau lleol yn anfon holiadur blynyddol i ddarparwyr sy'n darparu dadansoddiad lleol sy'n cyfeirio contractau, monitro a chomisiynu lleol. Mae'r PCRh yn ymateb i'r alwad genedlaethol am gysondeb rhanbarthol ac mae felly'n hybu'r angen am ddadansoddiad rhanbarthol o'r wybodaeth a gasglwyd yn yr holiaduron monitro fel y gall ddarparu dadansoddiad rhanbarthol sy'n cyfeirio contractau, monitro a chomisiynu rhanbarthol. Mae adolygiad a luniwyd ar y cyd o Holiadur Monitro Bae'r Gorllewin yn yr arfaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod.

### 5. Blaenoriaethau ar gyfer datblygu, sicrhau effeithiolrwydd, datgomisiynu ac ailfodelu gwasanaethau

#### 5.1 Blaenoriaethau Datblygol a Themâu Allweddol Bae'r Gorllewin

Mae'r PCRh wedi llunio Cylch Cynllunio Strategol Bae'r Gorllewin i gynorthwyo gydag ymagwedd gweithio ar y cyd fwy rhanbarthol a chydlynol. Ers ei lansio, mae'r cylch wedi'i ddiweddarau i gyd-fynd yn well â rhyddhau'r data sydd ar gael yn y flwyddyn i ddod ac mae amserlen o gyfarfodydd cynlluniedig bellach wedi'u trefnu i gyd-fynd â'r cylch (a ddangosir isod):



**Cylch Cynllunio Strategol Bae'r Gorllewin**

PCRh

Meintiol

- 1) Diwrnod Datblygu PCRh: Adolygiad Rhanbarthol
- 2) Fforymau Darparwyr Lleol h.y. edrych i'r dyfodol
- 3) Fforwm Darparwyr Rhanbarthol h.y. edrych i'r dyfodol

**Dadansoddi**

<p><b>Casglu Data Meintiol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dyddiad cau canlyniadau Ch2 a 3, 6 Ion17 (Gorff-Rhag16)</li> <li>• Dyddiad cau canlyniadau (Gorff-Rhag16) diwedd Chwe 17</li> <li>• Cynllun Strategol Rhanbarthol (Dyddiad cau Ion17)</li> <li>• Data/Ffurflenni Digartrefedd (Ion)</li> <li>• Holiadur Monitro Darparwyr</li> <li>• Cyflwyno Cynllun Gwariant Rhanbarthol a Lleol 17-18</li> </ul>	<p><b>Dadansoddi Data Meintiol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Canlyniad Ch4 (Dyddiad cau diwedd Ebr17)</li> <li>• Adolygiad Blynyddol (Dyddiad cau diwedd Meh17)</li> <li>• Datblygu Cynllun Strategol Rhanbarthol</li> <li>• Data/Ffurflenni Digartrefedd Ch4 (Ebr 17)</li> </ul>
<p><b>Ansoddol</b></p>	
<p><b>Myfyrio Strategol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• PCRh yn Cymeradwyo'r Cynllun Strategol Rhanbarthol</li> <li>• Canlyniadau Gorff-Rhag (Dyddiad cau 6 Ion)</li> <li>• Cynlluniau Gwariant Drafft i'r ALI Arweiniol (Rhag)</li> <li>• Data/Ffurflenni Digartrefedd Ch2 (Hyd)</li> </ul>	<p><b>Themâu Strategol sy'n Dod i'r Amlwg</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Datblygiad Lleol</li> <li>• Canlyniadau Ch1</li> <li>• Data/Ffurflenni Digartrefedd Ch1 (Gorff)</li> <li>• Datblygu Cynllun Strategol Rhanbarthol</li> <li>• Ethol Cadeirydd/</li> <li>• Is-gadeirydd (Medi)</li> <li>• Tystysgrif Archwilio LIC (Medi)</li> </ul>

- 1) Fforwm Darparwyr Lleol
- 2) Fforwm Darparwyr Rhanbarthol

**Cynllunio**

PCRh

PCRh

- 1) Fforymau Darparwyr Lleol
- Fforwm Datblygwyr Rhanbarthol

**Adolygu**

- 1) Diwrnod Datblygu PCRh
- 2) Fforymau Darparwyr Lleol
- 3) Fforwm Darparwyr Rhanbarthol

**Allwedd**  
Cyfnodau gwyliau

Nodwyd blaenoriaethau rhanbarthol y tair blynedd nesaf ar gyfer datblygiadau rhanbarthol yn y dyfodol yn dilyn cyfres o ddiwrnodau datblygiad yn 2016, sef:

- 1) Profiad Andwyol yn ystod Plentyndod
- 2) Atal Digartrefedd
- 3) Cysylltiadau â'r Bwrdd Partneriaeth Iechyd, Lles a Gofal Cymdeithasol

Mae'r tabl canlynol yn dangos y materion a nodwyd dan bob blaenoriaeth rhanbarthol, y ddeddfwriaeth maent yn cyfeirio iddi, camau gweithredu arfaethedig y PCRh ar gyfer datblygiadau rhanbarthol yn y dyfodol:

<b>1. Blaenoriaeth: Profiad Andwyol yn ystod Plentyndod</b>			
<b>Deddfwriaeth/ffynhonnell</b>	<b>Materion</b>	<b>Camau Gweithredu</b>	<b>Canlyniad</b>
<p>Strategaeth genedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol - fframwaith darparu 2016 - 2021</p> <p><a href="https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/strategaeth-genedlaethol-ar-drais-yn-erbyn-menywod-cam-drin-domestig-thrais-rhywiol">https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/strategaeth-genedlaethol-ar-drais-yn-erbyn-menywod-cam-drin-domestig-thrais-rhywiol</a></p>	Cam-drin domestig fel achos digartrefedd	Cysylltu â'r adolygiad rhanbarthol o gam-drin domestig a chytuno i roi unrhyw argymhellion sy'n deillio o'r gwasanaethau a ariennir drwy Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl neu waith atal digartrefedd ar waith.	
<p>Fframwaith LIC: Atal Digartrefedd a Hyrwyddo Annibyniaeth: Llwybr Cadarnhaol tuag at Fyd Oedolion, Cymorth Cymru, CLILC, LIC</p> <p><a href="http://llyw.cymru/topics/housing-and-regeneration/services-and-support/homelessness/youth-homelessness/?lang=cy">http://llyw.cymru/topics/housing-and-regeneration/services-and-support/homelessness/youth-homelessness/?lang=cy</a></p> <p><a href="http://gov.wales/legislation/programme/assemblybills/social-services/?lang=cy">http://gov.wales/legislation/programme/assemblybills/social-services/?lang=cy</a></p>	Llwybr Cadarnhaol tuag at Fyd Oedolion	<p>Mae datblygu Strategaeth Digartrefedd yn dilyn yr egwyddorion a nodir meysydd arfer da.</p> <p>Comisiynu Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl - mae'n mynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd yn y Strategaeth Digartrefedd.</p>	
<p>Gwell Llwybr i'r Rheini sy'n Gadael y Carchar LIC:</p> <p><a href="http://llyw.cymru/newsroom/housing-and-regeneration/2015/151215-a-better-pathway-for-prison-leavers/?lang=cy">http://llyw.cymru/newsroom/housing-and-regeneration/2015/151215-a-better-pathway-for-prison-leavers/?lang=cy</a></p> <p>Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd i Blant, Pobl Ifanc ac Oedolion mewn Sefydliadau</p>	Rhai sy'n Gadael y Carchar	<p>Trosolwg o roi'r Llwybr Carchar Cenedlaethol ar waith</p> <p>Mae datblygu Strategaeth Digartrefedd yn dilyn yr egwyddorion a'r meysydd arfer da a nodir.</p> <p>Mae comisiynu Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl yn mynd i'r afael â'r blaenoriaethau a</p>	

<p>Diogel LIC, Rhagfyr 2015  <a href="http://llyw.cymru/docs/desh/publications/151215-national-pathway-for-homelessness-services-cy.pdf">http://llyw.cymru/docs/desh/publications/151215-national-pathway-for-homelessness-services-cy.pdf</a></p>		<p>nodwyd yn y Strategaeth Digartrefedd.</p>	
<p><a href="http://llyw.cymru/about/cabinet/decisions/previous-administration/2016/jan-mar/communities/lq1071/?lang=cy">http://llyw.cymru/about/cabinet/decisions/previous-administration/2016/jan-mar/communities/lq1071/?lang=cy</a></p> <p>Cynllun Camddefnyddio Sylweddau LIC:  Cynllun cyflwyno Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed 2016-18  <a href="http://llyw.cymru/topics/people-and-communities/communities/safety/substanceuse/publications/dplan/?lang=cy">http://llyw.cymru/topics/people-and-communities/communities/safety/substanceuse/publications/dplan/?lang=cy</a></p>	<p>Cael gwared ar wely a brecwast</p> <p>Anghenion cymhleth/ymddygiad heriol/cydfodolaeth problemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau</p>	<p>Strategaethau ac arfer da i bobl ifanc 16 i 17 oed</p> <p>Gwella cydweithio â gwasanaethau Iechyd Meddwl a chamddefnyddio sylweddau arbenigol.  Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (<b>CAMHS</b>)</p> <p>Arfer da wrth gynnwys a gwella canlyniadau</p>	
		<p><i>Camau gweithredu o Gynllun Camddefnyddio Sylweddau LIC:</i>  LIC a PCRh i adolygu'r ddarpariaeth hyfforddiant sydd ar gael i'r gweithlu tai a'r sgiliau, yr wybodaeth a'r galluoedd sy'n ofynnol i helpu pobl sy'n camddefnyddio sylweddau.</p>	
		<p><i>Camau gweithredu o Gynllun Camddefnyddio Sylweddau LIC:</i>  LIC, ICC, WEDINOS, BCA, PCRh, CHTh, yr heddlu a fferyllfeydd cymunedol i ddatblygu proses strwythuredig er mwyn monitro tueddiadau a rhannu gwybodaeth am gyfansoddiad sylweddau, y defnydd o gyffuriau (cyfreithiol ac anghyfreithlon), sypiau peryglus a grwpiau risg yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.</p>	
		<p><i>Camau gweithredu o Gynllun Camddefnyddio Sylweddau LIC:</i>  BCA, NOMS (Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyd), CHTh, PCRh a'r Heddlu i sicrhau bod yr holl wasanaethau a gomisiynir (gan gynnwys gwasanaethau Haen 4) ar gyfer defnyddwyr opiadau yn cynnwys darparu naloxone a hyfforddiant fel elfen orfodol o'u gweithdrefnau.</p>	

		<p><i>Camau gweithredu o Gynllun Camddefnyddio Sylweddau LIC:</i>          BCA, NOMS, Byrddau Cyfiawnder Ieuenctid, PCRh, CHTh a'r Heddlu i ddatblygu strategaeth cynnwys defnyddwyr gwasanaeth a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ddefnyddwyr gwasanaeth am y camau gweithredu a gymerwyd o ganlyniad i gyfranogaeth defnyddwyr gwasanaeth.</p>	
		<p><i>Camau gweithredu o Gynllun Camddefnyddio Sylweddau LIC:</i>          BCA a dulliau partneriaethau rhanbarthol eraill e.e. Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol i ddatblygu a chynnal cysylltiadau cryf i sicrhau gwasanaethau cydlynol a sicrhau bod strategaethau comisiynu a ffrydiau cyllido'n cyd-fynd â'i gilydd.</p>	

<b>2. Blaenoriaeth: Atal digartrefedd</b>			
<b>Gwasanaethau/ Deddfwriaeth</b>	<b>Materion</b>	<b>Camau gweithredu</b>	<b>Canlyniad</b>
<a href="http://lyw.cymru/topics/people-and-communities/welfare-reform-in-wales/?lang=cy">Hhttp://lyw.cymru/topics/people-and-communities/welfare-reform-in-wales/?lang=cy</a> Arloesedd atal digartrefedd	<p>Diwygio Lles:          Effaith y Lwfans Tai Lleol</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>18-21 oed - bwriad yr heddlu na fydd oedolion ifanc 18-21 oed yn gymwys i gael budd-dal tai oni bai y cânt eu</li> </ul>	<p>Derbyniwyd adroddiad gan Ofal Iechyd Parhaus ar enghreifftiau o arfer presennol i liniaru'r effaith.</p>	
			<p>Ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus cenedlaethol ar Fyw â Chymorth.</p>

	<p>cynnwys yn y categori 'diamddiffyn'. Ni chafwyd eglurhad eto gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ynghylch y diffiniad o ddiamddiffyn.</p> <p><i>DS:</i>  <i>Caiff credyd cynhwysol ei gyflwyno'n llawn yn:</i>  <i>CNPT: Hydref 2017</i>  <i>Abertawe: Rhagfyr 2017</i>  <i>Pen-y-bont ar Ogwr: Chwefror 2018</i>  <i>O'r amser hwn, ni fydd yr elfen tai ar gael i unrhyw un rhwng 18 a 21 oed.</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Pobl dan 35 oed - cymhwysir LTLI i dai rhentu cymdeithasol. Mae LTLI islaw lefelau rhent cyfredol.</li> <li>• Y bwriad yn ôl y polisi yw cymhwyso LTLI i Fyw â Chymorth. Bwriad i drosglwyddo swm sy'n gyfwerth â'r diffyg i gynnal y ddarpariaeth bresennol.</li> <li>• Pobl Hŷn - Mae'r LTLI yn effeithio ar dai lloches.</li> </ul>	<p>Paratoi asesiad effaith yn rhanbarthol er mwyn bod yn ymwybodol o'r swm sydd ei angen o'r pot arian i'w drosglwyddo i gynnal gwasanaethau presennol.</p>	
<a href="http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/welfare-reform/?lang=cy">http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/welfare-reform/?lang=cy</a>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cartrefi â Chymorth - bydd cyfraddau LTLI yn gymwys, ond bydd swm sy'n gyfwerth â'r gwahaniaeth bellach yn cael ei drosglwyddo i LIC i benderfynu ar sut caiff ei ddefnyddio.</li> </ul>	<p>Y PCRh i hysbysu a dylanwadu lle/os yw'n bosib</p> <p>Darpar ymatebion i ymgynghoriadau ar eu heffaith</p>	
	Llety Dros Dro	Gwerthuso rhanbarthol	
	Arian Pontio - goblygiadau ac effaith toriadau a'r ffaith ei fod yn dod i ben	Cynlluniau peilot a gwerthuso arloesedd	
<a href="http://llyw.cymru/newsroom/housing-and-regeneration/2015/151215-a-better-pathway-for-prison-leavers/?lang=cy">http://llyw.cymru/newsroom/housing-and-regeneration/2015/151215-a-better-pathway-for-prison-leavers/?lang=cy</a>	Rhai sy'n Gadael y Carchar: nid yw'n angen statudol mwyach.	Trosolwg o roi'r Llwybr Carcharau Cenedlaethol ar waith	
	Cael gwared ar wely a brecwast	Strategaethau ac arfer da ar gyfer pobl ifanc 18 i	

		25 oed a'u teuluoedd	
	Anghenion cymhleth/ymddygiad heriol/cydfodolaeth problemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau	Strategaethau ac arfer da <i>Cam gweithredu o gynllun Camddefnyddio Sylweddau LIC fel a restrir uchod</i>	

### 3. Blaenoriaeth: Cysylltiadau â Bwrdd Partneriaeth Iechyd, Lles a Gofal Cymdeithasol

*O fis Ebrill 2003, bydd gofyn i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol roi strategaeth iechyd, gofal cymdeithasol a lles ar waith ar gyfer eu hardal leol.*

<b>Gwasanaethau/Deddf wriaeth</b>	<b>Materion</b>	<b>Camau Gweithredu</b>	<b>Canlyniad</b>
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 <a href="http://llyw.cymru/docs/dsilg/publications/150623-guide-to-the-fg-act-cy.pdf">http://llyw.cymru/docs/dsilg/publications/150623-guide-to-the-fg-act-cy.pdf</a>  Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 <a href="http://llyw.cymru/topics/health/socialcare/act/assessments?lang=cy">http://llyw.cymru/topics/health/socialcare/act/assessments?lang=cy</a>  <a href="http://llyw.cymru/dhss/publications/socialcare/strategies/fulfilledlives/fulfilledlivesw.pdf?lang=cy">http://llyw.cymru/dhss/publications/socialcare/strategies/fulfilledlives/fulfilledlivesw.pdf?lang=cy</a>	Gweithio ar y cyd	Gwella cysylltiadau	
	Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi sefydlu Bwrdd Comisiynu Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu penodol.	Mynd i'r afael ag argymhellion y Bwrdd Comisiynu Anableddau Dysgu ac Iechyd Meddwl	
	24 awr	Trosolwg o wasanaethau 24 awr, eu harfer da a'u blaengaredd	
	Costau rheoli	Trosolwg ac arfer da mewn costau rheoli canolog	
	Asesiad o Anghenion Poblogaeth o ran Digartrefedd	Gwella'r Asesiad o Anghenion Poblogaeth o ran digartrefedd a'r angen am dai â chymorth.	
	Bylchau mewn gwybodaeth	Adolygu a nodi bylchau mewn gwybodaeth a gwneud argymhellion	

## 6. Atodiadau

---

1. Aelodaeth o'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol (PCRh)
2. Siart Rhaglen Iechyd a Gofal Cymdeithasol Bae'r Gorllewin

## Atodiad 1: Aelodaeth o'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol (PCRh)

<b>Aelodau sy'n Pleidleisio</b>	<b>Teitl y Swydd</b>	<b>Yn Cynrychioli</b>
Y Cyng. Jane Harris	Cadeirydd	Abertawe
Y Cyng. John Rogers		CBS CNPT
Y Cyng. Hailey Townsend		Pen-y-bont ar Ogwr
David Tovey	Rheolwr Strategol, Cartrefi â Chymorth (Is-gadeirydd)	Cynrychiolydd Landlordiaid
Gwag		Cynrychiolydd Darparwyr Tymor Hir
Gwag		Cynrychiolydd Darparwyr Tymor Byr
Joanne Davies	GIG Cymru	Bwrdd Iechyd PABM ac Iechyd Cyhoeddus Cymru
David Bebb	Pennaeth UCLI, Ardal BGN	Gwasanaeth Prawf
<b>Hawliau Pleidleisio Dirprwyedig</b>		
Angie Bowen	Rheolwr Grŵp, Tai ac Adfywio Cymunedol	Arweinydd CP Pen-y-bont ar Ogwr
Rachel Evans	Prif Swyddog, Diogelu a Lles	Arweinydd CP Abertawe
Gareth Evans	Prif Swyddog, Digartrefedd a Chefnogi Pobl	Arweinydd CP CNPT
Mark Hopkins	Rheolwr Gwasanaeth, Cartrefi â Chymorth, Cymdeithas Tai Teulu	Dirprwy Gynrychiolydd Landlordiaid
Gwag		Dirprwy Gynrychiolydd Darparwyr Tymor Byr
Lynne Sanders	Cyfarwyddwr, Cymorth i Fenywod Abertawe	Dirprwy Gynrychiolydd Darparwyr Tymor Hir
Joanne Stephens		Cyn. y Gwasanaeth Prawf/CAC Cymru
<b>Aelodau Cyfetholedig</b>		
Sian Morris	Rheolwr Diogelwch Cymunedol	Cynrychiolydd Darparwyr
Julia Lewis	Cydlynnydd Cam-drin Domestig	Cynrychiolydd Darparwyr
Steve Adie	Pennaeth Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau a'i Datblygiad, BGN	Camddefnyddio Sylweddau
<b>Ymgynghorol</b>		
Mark Wade	Pennaeth Gwasanaethau Cymunedau Tai	Abertawe
Anita Evans	Swyddog Datblygu Cynllunio a Pherfformiad	CP Abertawe
Sarah Vye	Swyddog Contractio CP	CP Abertawe
Mark Davies	Gweinyddwr Ariannol	CP Abertawe
Hayley Bearman	Swyddog Comisiynu Digartrefedd a Chefnogi Pobl	CNPT
Angela Thomas	Pennaeth Comisiynu a Chefnogi Busnesau	CNPT
Huw Owen	Swyddog Strategaeth a Chynllunio CP	CP Pen-y-bont ar Ogwr
Martin Ridgeway	Arweinydd Tîm, Strategaeth Tai a CP	CP Pen-y-bont ar Ogwr
Jaqui Davies	Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion	Pen-y-bont ar Ogwr
Jade Wing	Swyddog Comisiynu a Chontractau	CP Pen-y-bont ar Ogwr
Debra Trezise	Cydlynnydd Datblygu Rhanbarthol	Bae'r Gorllewin
Kerry Bailey	We Predict	Cynrychiolydd Bwrdd Cyngori Cenedlaethol Cefnogi Pobl
Steve Lynch	Polisi a Grantiau Cartrefi â Chymorth	LIC
Donna Lemin	Polisi a Grantiau Cartrefi â Chymorth	LIC
<b>c.c er gwybodaeth yn unig</b>		
Angela Lloyd	Swyddog Monitro Contractau	CP Abertawe
Rebecca Jenkins	Cynorthwy-ydd Cyllid a Gweinyddiaeth	CP Abertawe
Alex Williams	Pennaeth Gwasanaethau i Oedolion	Abertawe



## Atodiad 2: Siart Rhaglen Iechyd a Gofal Cymdeithasol Bae'r Gorllewin

### Strwythur Llywodraethu Rhaglen Iechyd a Gofal Cymdeithasol Bae'r Gorllewin (Medi 16)

